

ECO'R WYDDFA

Rhif 231

CHWEFROR 1997

Pris 30c

Dathlu yn yr Antur . . .



Dathlu creu tair swydd newydd y mae cwmni Antur Waunfawr yn sgil changu ei adran busnes ailgylchu. Mae Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd wedi ei leoli ym Mangor ac yn cynnal gwasanaeth ailgylchu led-led y sir mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Derbyniwyd cymorth ariannol at y fenter oddi wrth Gronfa'r Loteri. Bwriedir sefydlu canolfannau ailgylchu mewn nifer o bentrefi i gasglu papur, caniau a defnyddiau eraill.


Mae dwy o'r tri a benodwyd yn

byw ym mro'r Eco: Meirwen Lloyd o Lanrug yw'r swyddog gweinyddol, a Jennifer Rowlands o'r Waunfawr yw'r swyddog marchnata a datblygu. Mae'r trydydd, Meirion Thomas, yn byw yn Nhregarth. Yn ogystal â chasglu papur o swyddfeydd a busnesau lleol a sefydlu'r canolfannau ailgylchu cymunedol, mae'r cwmni yn darparu gwasanaeth ailgylchu dodrefn. Mae dodrefn a roir gan y cyhoedd yn cael eu defnyddio i ddodrefnu cartrefi i bobl ifanc mewn angen.

Ydi, mae'r Eco yn 21 mlwydd oed y mis hwn. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ym mis Chwefror 1976, ac mae wedi ei gyhoeddi'n ddi-dor ers hynny. Edrychwn ymlaen at barhau i wasanaethu'r fro, trwy ddarparu newyddion ac erthyglau sydd o ddiddordeb i'n darllenwyr. Diolch am y gefnogaeth sydd wedi

Gellir ffonio 01248 355112 am ragor o fanylion ynglŷn ag unrhyw un o'r cynlluniau uchod.

21 oed heddiw



Penblwydd Hapus Eco'r Wyddfa

galluogi'r Eco i wneud cyfraniad pwysig i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y pentrefi a wasanaethwn. Daliwch i'w brynu a'i ddarllen ac i gyfrannu iddo er sicrhau llwyddiant y papur am flynyddoedd lawer eto. Ar y dudalen hon fe welwch nad yr Eco yn unig sy'n dathlu y mis hwn ...

. . . yn yr Amgueddfa

Bydd Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yn dathlu ei phenblwydd yn 25 oed eleni.

Fel rhan o'r dathliadau mae'r Amgueddfa yn awyddus i drefnu arddangosfa fechan a fydd yn adrodd hanes yr adeilad, sydd wedi'i leoli yng Ngweithdai Chwarel Dinorwig.

Un o'r ffotograffau dan sylw ar gyfer yr arddangosfa yw ffotograff, a welir ar dudalen 3, a dynnwyd yn 1896 yn iard gweithdai diwydiannol y Chwarel.

'Rhoddwyd y llun inni y llynedd gan Mr T. Arfon Roberts o Gaernarfon, meddai O. Tudur Jones, swyddog Arddangosfeydd a Dogfennaeth yr Amgueddfa.

'Roedd y llun yn eiddo i'w daid, a oedd yn gweithio yn y gweithdai ac sydd i'w weld yn y llun. Rydym yn awyddus i gael gwybod pwy yw'r dynion yn y llun ar gyfer ein cofnodion yma yn yr Amgueddfa ac hefyd efallai beth oedd rhai o'r dynion yn ei wneud yn y gweithdai, lle roeddynt yn byw, ac yn y blaen.'

. . . yn Llanberis



Dathlu derbyn cymorth ariannol oddi wrth Bwyllgor Carnifal Llanberis y mae tri o fudiadau'r pentref. Cyflwynodd Mr Ieuan Ellis Jones, Llywydd y Pwyllgor, £600 yr un i'r Frigad Ddan, Cronfa Goffa R H Owen ac Ysgol Sul Capel Coch. Bydd yr Ysgol Sul yn defnyddio'r arian i brynu byrddau a chadeiriau newydd ar gyfer y plant.

Yn y Cyfarfod Blynnyddol ar Ionawr 6 etholwyd y swyddogion canlynol i Bwyllgor y Carnifal. Llywydd, Mr Ieuan Ellis Jones;

Cadeirydd: Mr Gareth Jones; Trysorydd: Mr Arfon Phillips; Ysgrifennydd: Mr Alan T Jones; Is-ysgrifennydd: Miss Julie Baylis. Bydd cefnogwyr y Carnifal yn falch o ddeall y cynhelir Carnifal eleni eto, a hynny ar Orffennaf 19. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn falch o bob cymorth a chefnogaeth.

Yn y llun gwelir Mr Ieuan Ellis Jones yn cyflwyno'r siec i Mr Gareth Jones (yr Ysgol Sul), Mr Steven Roberts (Y Frigad Ddan) a Mr John M Hughes (Cronfa Goffa R H Owen).

. . . ac ar y Lein

O'r diwedd mae Cymdeithas Rheilffordd Ucheldir Cymru (Cymdeithas Rheilffordd Eryri) wedi cael dechrau adeiladu'r lein o Gaernarfon i Borthmadog. Dechreuwyd gyda darn byr o lein yn iard Dinas ond erbyn mis Gorffennaf eleni y gobaith yw cwblhau'r lein rhwng Caernarfon a Dinas. Wedyn fe eir ymlaen am y Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd-ddu cyn camu am Feddgelert a Porthmadog.

I weithredu'r cynllun cyffrous hwn mae'r cwmni angen cymorth gwirfoddolwyr lleol. Mae nifer o Gymry Cymraeg ymysg y partïon gwaith sydd wrthi'n barod. Bydd y cwmni yn falch iawn o gael cymorth gan beirianwyr, seiri, adeiladwyr a llawer gyda sgiliau eraill.

Nid oes rhaid cael sgiliau arbennig i ymuno â'r criw gan y gellir dysgu sgiliau newydd i'r rhai sy'n dymuno hynny fel gosod cledrau, trin injan stêm, gyrru injan stêm, gyrru injan diesel a theoli trenau.

Y cam cyntaf yw ymuno â'r Gymdeithas. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â: **Dafydd Thomas (01248) 681019.**

ECO'R WYDDFA

Rhif 231
CHWEFROR 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-
y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, CHWEFROR 17
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAWRTH	CHWEFROR 27	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 27	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	MAI 1	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 26	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 4	DINORWIG	—	—
HYDREF	HYDREF 2	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 30	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrâu

Côr Harri Bach?

Annwyl Olygydd,

Derbyniais *Eco'r Wyddfa* ddoe ac wedi ei ddarllen i gyd a'i fwynhau.

Mae un peth wedi tynnu fy sylw yn y rhifyn, sef y llun o gôr meibion gan Mr Selwyn Jones, a minnau'n meddwl mai Côr Harri Bach, Tŷ Capel Nasareth ydyw. Roedd Harri Bach, fel y'i gelwid, yn gefnder i fy niweddar fam-yng-nghyfraith, sef Mrs Grace Thomas, Llain y Delyn, Penrhos, Pwllheli, ac fe fyddai fy niweddar briod yn sôn amdano yn arwain côr meibion. Roedd teulu Llain y Delyn yn gantorion da. Chefais i erioed y fraint o'i gyfarfod ond mae'n debyg fod rhai o'i deulu o gwmpas o hyd.

Rhyw air bach blêr fel'na, efallai erbyn yr *Eco* nesa. Efallai y bydd rhywun wedi cael mwy o wybodaeth.

Yn gywir,

HELENA THOMAS
Cynlas, Morfa Nefyn, Pwllheli.

Y Naturiaethwr

(Cymdeithas Edward Llwyd)

Ymddangosodd y *Naturiaethwr* ar ei newydd wedd yn 1996 a'r bwriad yw datblygu cylchgrawn fydd yn rhoi cyfle i aelodau'r gymdeithas, ac eraill, i gyhoeddi gwaith gwreiddiol o'u heiddo ar unrhyw bwnn oddi mewn i gwmpas diddordeb y gymdeithas — gall fod yn natur, daearyddiaeth, archaeoleg, hanes,

daeareg, neu yn wir unrhyw bwnn sy'n adlewyrchu diddordebau eang Llwyd ei hun.

Felly, os hoffech weld eich gwaith ymchwil, neu groniclo, yn cael ei gyhoeddi — yn nodyn neu bapur swmpus — cysylltwch â mi. Anelwn at gyhoeddi data gwerthfawr am Gymru a'i chefn gwlad a fydd o werth i groniclwyd y dyfodol. Cysylltwch hyd yn oed os nad ydych yn sicr a yw eich gwaith yn gweddu — mae canllawiau manwl i awduron i'w cael gennyf.

Y dyddiad olaf swyddogol i dderbyn cyfraniadau ar gyfer rhifyn 1997 yw'r dydd olaf o Chwefror.

Yn gywir,

LLYR D. GRUFFYDD (Golygydd)
45 Maes yr Hafod
Porthaethwy, Ynys Môn LL59 5NB
(01248) 712944

Galw Cynfyfyrwyr Coleg y Normal

Yn dilyn uno'r Coleg Normal â Phrifysgol Cymru, Bangor, gwahoddir cynfyfyrwyr y Normal i ymuno â Chymdeithas Cynfyfyrwyr Bangor.

Fel arfer bydd y Gymdeithas yn trefnu noson gymdeithasol yn Chwefror; trip ym Mai; cinio ym Medi; ac Aduniad bob yn ail blwyddyn (Medi 1988 gyda 'Y Fenai' fel thema). Cyhoeddir y *Bangoriad* bob mis Mawrth.

Dylai cynfyfyrwyr sydd am ymuno â'r Gymdeithas gysylltu â'r Ysgrifennydd Mygedol, Mrs Ellen Wyn Kent, Gwynant, 32 Hawes Drive, Deganwy, Conwy LL31 9BW.

Os am sicrhau copi o'r *Bangoriad* am 1997 anfonwch yn awr.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Anfonwn ein cofion at Elwyn Searell Jones, gohebydd yr *Eco* yn y Nant sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Brysfa wella, Elwyn.

Theatr Bara Caws
yn cyflwyno

"BRODYR Y BRWSH"

yng Nghanolfan Waunfawr
Nos Wener, Chwefror 14

Tocynnau ar gael gan
Sylvia Thompson
01286 650274

SAIN yn cyflwyno
GWLAD I MI '97

Nos Iau, Ebrill 3
Theatr Gogledd Cymru
Llandudno

John Ogwen yn cyflwyno
Dafydd Iwan a'r Band
John ac Alun, Iona ac Andy
Cajuns Denbo, Iwcs a Doyle
Dylan a Neil, Broc Môr

Tocynnau £8.00

Ffoniwch:
SAIN (01286) 831111
Theatr 01492 872000

Trefnir bysus rhad -
FFONIWCH SAIN

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

COLOFN Y DYSGWYR HANES JONI JONES (S4C)

Mae hanes Joni Jones bach yn ddoniol iawn. Pan mae Joni yn gweddio mae'n gofyn i Dduw am gymorth 'i frifo' Owen Joni ac 'i dorri ei goes'. Mae Joni'n mynd i drwbl mewn munud heb drio ac yn cael amser drwg gan yr hogia eraill. Dydy Joni ddim yn hoffi genod o gwbl — ugh! Dydy oedolion byth yn ei ddeall o, ac maen nhw'n trio ei wneud yn 'hogyn da'. Rydw i yn hoff iawn o straeon Joni Jones.

Unwaith roedd y stori am ifaciwis — plant bach yn dod o Lerpwl a Llundain i Gymru yn ystod y rhyfel. Roeddwn yn chwethrin gan fy mod wedi bod yn 'evacuee' fy hun. Cyrraedd Caledfryn, Rallt Goch, Llanberis, efo dwy chwaer fach arall, Dorothy a Hilda. Colli Edith a John, brawd a chwaer arall ar y ffordd. Yn Caledfryn roedd Anti — modryb Blodwen ac ewyrth Tom. Roeddent fel mam a thad imi am chwe mlynedd ac yn fy ngharu am oes wedyn. Clywais Gymraeg am y tro cyntaf, cael cig oen i swper, gwely mawr i'r tair ohonom ni, dweud pader wrth y gwely fel hyn, 'Please, God, don't let a bomb fall on my Mammy and Daddy.' He didn't. Roedd ein rhieni yn saff. Adref aethom ni. Bywyd newydd arall, iaith Saesneg i'w hail ddysgu, teulu i'w hadnabod. O ie, mae storïau Joni Jones yn reit dda ac yn ddoniol iawn.

SARAH P. ROBERTS

ADOLYGIAD

ATGOFION UNCLE TOMOS gan T. Alun Williams

O gwmpas cyfnod y Nadolig fe gyhoeddwyd y llyfr swmpus hwn gan Tomos Alun Williams, Nantlle, athro wedi ymddeol a chwaer iddo oedd y ddiweddar Jane Williams, Bryn Eifion, Llanrug.

Yn ei lyfr, sydd wedi golygu blynyddoedd meithion o gasglu gwybodaeth a'u didoli, ceir darlun amhrisiadwy o gymeriadau a digwyddiadau Dyffryn Nantlle dros y ganrif hon a rhagor.

Mae'r llyfr yn gyfraniad pwysig i gronico rhinweddau — a ffaeiddau o bosib — bywyd cymdeithasol, diwyllianol, crefyddol a diwydianol y dyffryn a cheir amryw o luniau i ychwanegu at y pleser.

Yn naturiol ceir ynddo atgofion personol yr awdur a chyfeiriadau at lu o deuluoedd y dyffryn; yr enwog frodyr Fransis; y dreflan yn Nrws y Coed, Talmignedd, Plas Baladeulyn, a'r Hendersons, i enwi ond rhai ohonynt, heb sôn am achlysuron mor dyngedfennol â dyfodiad y taci a'r bysiau cyntaf a ymlwybrodd i unigeddau'r Nant.

Fel y dywedais eisoes mae'n lyfr swmpus o dros 300 o dudalennau. Dyma lyfr a ddylai fod ar silff lyfrau unrhyw un sydd a chysylltiad â Dyffryn Nantlle.

Cyhoeddwyd: Argraffwyr Caernarfon.

Pris: £7.

R.W.

Pen-blwydd yr Amgueddfa



Os oes gan unrhyw un ohonoch wybodaeth ynglŷn â'r llun gofynnir i chwi gysylltu â Julie Williams neu Tudur Jones ar (01286) 870630 cyn diwedd

mis Ionawr os yn bosibl. Mae croeso hefid i unrhyw un fynd i'r Amgueddfa i weld y llun gwreiddiol, drwy gysylltu â'r uchod.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Ionawr 3, yng Ngwesty'r Fictoria, estynnwyd y dymuniadau gorau am flywydd newydd dda i'r holl aelodau a llwyr adferiad iechyd i Rol Williams, ac Elli, merch Geraint Lloyd Owen, gan y Llywydd, J. Norman Davies. Wedi cyfraniad bachog ac amserol gan Fardd y Clwb, R. Gwynn Davies, cyflwynwyd siaradwr y noson, John Hugh Hughes, gan Brython Jones. Gwnaed hynny yn ffraeth a bywgraffiadol gan amlygu i'r aelodau rai o lecynnau diddorol gorffennol y siaradwr o'i gychwyniad yn Rhos Isa' hyd at ei ymddeoliad fel prifathro Ysgol Gynradd Llanberis. Yn ei dro, cafwyd annerchiad ddiddorol gan John yn dadansoddi agweddau ar gynnyrch athrylith R. Williams Parry fel bardd natur. Cadarnhaodd ei ddaliadau â detholiad crefftus a sensitif o rai o'r cerddi a thanlinellu ei frwdfrydedd amlwg at ei destun ar yr un pryd. Cafwyd trafodaeth oleuedig ac aml stori o'r llawr a diolchwyd i'r siaradwr a phawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan Dei Tomos. Bydd y Clwb yn

cyfarfod nesaf ar nos Wener, Chwefror 7, pryd y ceir annerchiad gan Ralph Jones gyda Eurwyn Jones, y ddau o Lanberis, yn y gadair. Ar yr un noson, hyderir y gellir hel manylion penodol ynghylch y nifer sy'n bwriadu dod i ginio Gŵyl Ddewi'r Clwb a gynhelir nos Wener, Mawrth 7, a cheir mwy o wybodaeth ynglŷn â'r amgylchiad maes o law.

IOLO HUWS-ROBERTS

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mewn cyfarfod o'r Cyngor, a gynhaliwyd yn Ystafell Gymuned Penisarwaun, cyfeiriwyd at nifer o gwynion a dderbyniwyd o ardal Deiniolen. Roedd y problemau ynglŷn â pharcio ceir yn parhau i achosi trafferthion ar y Stryd Fawr a chytunwyd i ofyn i'r heddlu drefnu i anfon Warden Traffig i'r ardal.

Cytunwyd hefyd i estyn gwahoddiad i swyddog o'r Adran Gynllunio i ddod i gyfarfod â'r Cyngor i egluro eu cynlluniau ynglŷn â Strategaeth yr ardal. Gan fod astudiaethau i asesu problemau ardal Deiniolen wedi bod yn destun trafodaeth ers peth amser bellach roedd y Cyngor o'r farn y dylid symud ymlaen heb fwy o oedi.

Mae cyflwr peryglus hen siop Liptons yn dal i achosi pryder i'r Cyngor, ac fe eglurwyd fod y Cyngor Sir wedi anfon at y perchennog ynglŷn â hyn.

Pan gynhelir etholiadau'r Cyngor Sir yn y dyfodol fe fydd rhanbarth etholiadol Bethel yn UN ward,

gydag etholaeth o 1,024. Bydd ward Rhiwlas yn cael ei chyfuno â wardiau eraill plwyf Llanddeiniolen yn rhanbarth Penisarwaun.

Y trefniant ar gyfer y dyfodol felly fydd: **Rhanbarth Bethel**, un cynrychiolydd (oddeutu 1,024 o etholwyr); **Rhanbarth Deiniolen** i gynnwys Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-bont, un cynrychiolydd (oddeutu 1,360 o etholwyr); **Rhanbarth Penisarwaun** i gynnwys Penisarwaun, Rhiwlas a Brynrefail, un cynrychiolydd (oddeutu 1,286 o etholwyr).

Roedd Cyngor Llanddeiniolen wedi anfon at y Comisiwn Ffiniau i ddatgan ei fod o'r farn ei bod yn rhy gynnar eto i wneud unrhyw newidiadau er mwyn rhoi cyfle i'r Cynghorwyr newydd ymgysylltu a'u dyletswyddau. Nodwyd hefyd bod maint a natur y gymuned yn galw am drefniadau cynrychioladol nad ydynt yn seiliedig yn llwyr ar y gymhareb aelodau/etholaeth.

DRAENOG

Cwt ci pum seren os bu un erioed. Roedd yn foethus ac yn hardd - ac yn fawr! Gŵr o'r Waunfawr a'i gwnaeth ar gyfer ci bach newydd ei gymdogion. Roedd o mor falch o'r cwt wedi iddo dreulio oriau lawer yn y sied yn ei wneud. Ond wedi'r holl lafur, doedd hi'n biti bod y cwt yn rhy fawr i fynd trwy ddrws y sied! Bu raid malu'r cwt er mwyn ei gael drwy'r drws. Camgymeriad digon hawdd i'w wneud - ond mi fasech chi'n disgwyl gwell gan ddyn go amlwg yn swyddfa mesur a phrisio tir Cyngor Gwynedd.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

**Cerrig
Beddau**

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr carpedi
a phob math
o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: (01286)
650552

O SIAMBAR SELWYN

Does gen i fawr o gariad at ddinasoedd — ma' 'na ormod o siopau ynddyn nhw, ac mae'n gas gen i gerdded o gwmpas siopau. Ond o deithio cymaint o gwmpas yr hen fyd 'ma — mae gen innau fy hoff ddinasoedd hefyd.

Y ddinas harddaf i mi ymweld â hi erioed, yn ddi-os ydi Rio de Janeiro. Mae Rio yn naturiol hardd, ac mae'n werth mynd ar y car cebl i gael golwg ar y ddinas. Os ydych chi'n weddol heini efallai y byddwch yn awyddus i gymryd rhan mewn gêmâu pêl-droed hefo Peles y dyfodol ar draeth Copocabana, a phwy a wŷr na fydd Ronnie Biggs yn eich gwyllo yn y dirgel. Er na welais i'r 'ferch ar y cei' mae gen i atgofion melys iawn am Rio.

Y ddinas harddaf ym Mhrydain Fawr i'm tyb i yw prifddinas yr Alban - Caeredin. Hithau hefyd yn naturiol hardd am iddi gael ei chodi ar saith bryn. Mae 'na gannoedd o Gymry yn mynd ar bererindod blynyddol i Gaeredin i groesawu'r flwyddyn newydd, a nifer ohonynt o fro'r Eco.

Mae bod ar Stryd y Dywysoges yng Nghaeredin pan fydd y cloc yn taro hanner nos ar nos Calan, yn brofiad byth-

gofiadwy. Un ergyd o'r gwn yn y Castell yn cyhoeddi diwedd un flwyddyn a dechrau blwyddyn arall.

Mae pobol o bob rhan o'r byd yn dod i Gaeredin i ddatlu'r flwyddyn newydd. Meddyliwch o ddifri — 350,000 o bobl ar Stryd y Dywysoges a phawb mewn hwyliau da, y canu a'r cusanu, tân gwyllt yn gwreichioni, ac eleni i ychwanegu at yr olygfa ryfeddol — roedd yr eira'n disgyn. Roedd seiniau 'Auld Lang Syne' yn adseinio dros y brifddinas, a phawb yn dymuno'n dda i'w gilydd. Oedd, roedd 'na ambell un wedi cael mwy na llond ei geubal, ond doedd 'na'r un ffenast wedi ei thorri ar Stryd y Dywysoges! — tua chant oedd wedi cael triniaeth am fân anafiadau a dim ond dau ar bymtheg oedd wedi cael eu cymryd i'r ddalfa gan yr heddlu. Sut le fyddai yng Nghaerdydd tybed petaem ni'n dathlu nos Calan ar yr un raddfa a'n cyd-Geltiaid yn yr Alban?

Dywedir fod 10% o'r dyrfa wedi dod yno o wledydd tramor; 40% yn drigolion Caeredin a'r cylch; 25% o wledydd eraill

Prydain; a thua 25% o rannau eraill o'r Alban. Yn naturiol, pobl ifanc oedd y mwyafrif gyda digon o fandiau modern i'w denu, ond roedd yno amryw i'w gweld yng ngwisg draddodiadol yr Alban hefyd — er gwaetha'r tywydd oer. Roedd digonedd o fwyd ar gael — hambyrgyrs a chŵn poeth am £2.50 yr un, Cola neu ddiodydd poeth am £1. Roeddem ni'n lwcus iawn yn cael gweld y panorama i gyd o ffenest gwesty moethus y Mount Royal ar Stryd y Dywysoges. Fedrech chi ddim cael gwell golygfa — *grandstand view*.

O, ia, Caeredin ydi'r ddinas harddaf ym Mhrydain — boed aeaf neu haf, ac yn sicr dyma'r ddinas fwy bywiog a lliwgar i groesawu'r flwyddyn newydd. Os caf iechyd mi fydda i yno eto i groesawu 1998, 1999, a'r flwyddyn 2000. Erbyn hynny mi fydda innau wedi hen groesi rhiniog 'oed yr addewid' hefyd.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd, a phwy a wŷr efallai y gwela i chi yng Nghaeredin ddiwedd y flwyddyn 'ma. Dydy Caeredin ddim mor bell â Rio ac mi ellwch gychwyn ar y bererindod flynyddol yno o sgwâr Llanrug.

AROLYGU'R YSGOL

Yn ddiweddar derbyniodd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, adroddiad gan Arolygwyr ei Mawrhydi. Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn ymfalchio yn y nifer o bethau cadarnhaol ac yn y ffaith bod yr adroddiad yn cydnabod y gwaith da sydd yn cael ei wneud yn yr ysgol.

Gwna'r ysgol ymdrech deg i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae amcanion yr ysgol yn uchelgeisiol a gweithia'r staff yn galed er mwyn ceisio eu cyflawni. Mae'r staff yn weithgar a chyflwynir Rhaglen Astudio y Cwricwlwm Cenedlaethol trwy dasgau priodol ar lefel dosbarth unigol.

Dysga'r disgyblion am eu hetifeddiaeth Gymreig yn sgil yr ymweliadau a wneir â'r ysgol gan gwmnïau theatr mewn addysg a grwpiau dawn.

Cedwir cofrestrir ysgol yn gywir ac yn daclus ac mae lefelau presenoldeb yn foddhaol. Mae gweithdrefnau dydd i ddydd yr ysgol yn effeithlon.

Mae'r athrawon yn asesu datblygiad yn ôl lefelau a thargeddi cyrhaeddiad pynciol ar ddiwedd Cynllun Allweddol 1 a 2. Mae perthynas agos rhwng asesadau'r athrawon ac asesadau allanol y profion. Mae 9 o bob 10 gwrs yn foddhaol neu'n well. Mae safon cofnodi yn dda drwy'r ysgol ac mae'r asesu'n gyffredinol ddibynadwy a dilys.

Cynigir cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth briodol i'r disgyblion ac mae ansawdd y cyfarwyddyd a dderbyniant yn dda. Gwelwyd rhai enghreifftiau o ansawdd arbennig iawn. Mae ansawdd y berthynas rhwng disgyblion a'i gilydd a disgyblion ac oedolion yn dda. Mae'r athrawon yn ofalgar ac mae ganddynt adnabyddiaeth dda o'u disgyblion.

Gweithreda'r corff llywodraethol a'i is-bwyllgorau yn effeithiol.

Ceir yn yr ysgol gymuned hapus a diogel.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian.

Argymhellwyd rhoi sylw i'r canlynol. Nodwyd angen datblygu mwy ar gerddoriaeth, yr agwedd o reoli ar gyfrifiaduron yn CA2 a gorffennu gwaith technoleg. Dylid rhoi mwy o gynhalieth i blant galluog a phlant sydd ag anghenion addysg arbennig.

Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn croesawu'r adroddiad fel offeryn pwysig i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)

714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI A DRYSAU uPVC

Cynnig 1: 3 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£600**

Cynnig 2: 5 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£895**

Cynnig 3: 7 FFENEST WEDI EU
FFITIO AM **£1,295**



(01286) 871774

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

'Un funud fach . . .' PYSGOD

"Whisper" oedd yr enw ar y boc, ond go brin ei fod yn ddisgrifiad teg o'r peiriant oedd ynddo. Roeddwn i'n dechrau difaru i mi erioed feddwl cael pysgod. Roeddwn wedi mynd ati ychydig ddyddiau wedi'r Dolig i baratoi'r tanc, cerrig mân, planigion dŵr ... a'r pwmp aer. Hwnnw oedd yn dwyn yr enw "whisper". A fedrwn i ddim dychmygu enw mwy anaddas arno. Roedd i'w glywed dros y stafell, fedrwn i glywed dim ond sŵn y peiriant am oriau. Roedd yno'n amharu ar bob sgwr, roedd yno'n gyfeiliant i bob rhaglen radio a theledu. Aeth tair wythnos heibio ers hynny, a'r peth od yw nad wyf yn clywed y sŵn erbyn hyn. Rwyf wedi arfer cymaint â grwndi'r peiriant fel nad wyf yn clywed ei sŵn bellach.

Nid wyf yn ymwybodol o'r peiriant erbyn hyn. Rydan ni'n byw mewn rhan brydferth o'r wlad, ond mor hawdd hefyd yw bod mor gyfarwydd â'r mynyddoedd a'r llynoedd a'r coed a'r blodau fel nad ydym yn sylwi ar eu harddwch a'u hysblander. Mor hawdd yw colli golwg ar ryfeddod creadigaeth Duw a chymryd y cyfan yn ganiataol.

A gwaeth byth, mor hawdd yw cynefino efo Duw ei hun. Gallwn fod mor gyfarwydd â'r ffeithiau am Dduw fel nad ydynt yn golygu dim i ni. Ac nid sôn am bobl ddi-gred yr ydw i chwaith, ond amdanom ni sydd yn credu yn Nuw ac yn Iesu Grist. Gwyddom bod Duw yn ein caru; a'i fod yn gofalu amdanom; a'i fod yn dda wrthym. Gwyddom bod yr Iesu o'n plaid a'i fod wedi byw a marw ac atgyfodi er ein mwyn. Gwyddom bod yr Ysbryd Glân wrth law i'n helpu a'n cysuro. Ond rhywsut gall y cyfan fod yn rhy gyfarwydd. Rydan ni wedi arfer gormod â'r geiriau a'r ffeithiau moel.

Wrth i hyn ddigwydd mae'n golwg ar Dduw ei hun yn pylu, a'r rhyfeddod a'r hyfrydwch o adnabod Duw yn cael ei golli. Gwyliwn na ddigwydd hynny, a cheisiwn bob dydd gadw'n hymwybyddiaeth o gariad a phresenoldeb Duw yn fyw a real. A chofiw'n mai Ef ei hun all ein helpu yn hyn o beth.

JOHN PRITCHARD

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Llongyfarchiadau — i Rhian Williams, Arfon House, am basio arholiad piano, gradd 4, a gradd 3 ysgrifenedig gydag anrhydedd;

— i Mr a Mrs Huw D. Williams, Deulyn ar ddod yn nain a thaid am yr eildro;

— i Mr a Mrs Huw Roberts, Penrhos, ar enedigaeth mab.

Capel y Cysegr: Byddai ysgrifennydd presennol Capel y Cysegr, Jenkin Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel (01248) 670102, yn falch iawn o dderbyn hen adroddiadau blynyddol y Capel am y blynyddoedd cyn 1985. Y mae'n ceisio cael casgliad cyfan er mwyn eu cyflwyno i'r Greirfa yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Mae'r swyddogion hefyd yn ystyried paratoi ar gyfer dathlu 60 mlynedd ers adnewyddu'r capel a gofynnir am gael benthgyluniau neu ddefnyddiau eraill neu am atgofion o hanes y capel.

Merched y Wawr: Aeth y gangen i Westy Gwynedd, Llanberis, am eu cinio Nadolig nos Fercher, 11 Rhagfyr. Croesawyd pawb gan y llywydd, Deilwen Hughes a chydymdeimlodd â rhai o'r aelodau a oedd wedi colli perthnasau agos yn ddiweddar. Ar ôl bwyd ardderchog trefnwyd cwis gan Mr Elwyn Hughes, Bryn Ogwen. Rhoddwyd lluo o wobrau a gyfranwyd gan aelodau'r pwyllgor. Diweddwyd y noson gyda charolau.

Nos Sul, 15 Rhagfyr, yng Nghapel y Cysegr dan nawdd y gangen, cafwyd gwasanaeth 'Dathlu'r Nadolig'. Llywydd y noson oedd Deilwen Hughes a chroesawodd a diolchodd i bawb a oedd wedi ymwneud â'r gwasanaeth hwn mewn unrhyw ffordd. Arweinydd y gân oedd Glenys Griffiths a'r organyddes oedd Deilwen Hughes (yn absenoldeb Beti Owen a oedd yn wael). Cafwyd darlenniadau gan Ann Lewis, Eirlys Sharpe a Rita Williams gyda pharti llefaru a hyfforddwyd gan Rita D. Williams. Canwyd tair carol gan y côr, dan arweiniad Deilwen Hughes, gyda Caryl Owen yn cyfeilio iddynt. Yn ogystal ac aelodau'r gangen cymerwyd rhan gan Ysgolion Sul Bethel, Cysegr, Saron ac Eglwys St. Mair a St. Deiniol. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg W. R. Williams. Bydd yr arian a gasglwyd, sef £177.70, yn mynd tuag at ddefnyddiau trwy gyfrwng y Gymraeg i blant sy'n

dioddef o dyslecsia.

Nos Ferche, Ionawr 8, yn yr Ysgol Gynradd, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gangen am 1997 dan lywyddiaeth Deilwen M. Hughes. Wedi canu cân y mudiad croesawyd Mrs James o Fro Eglwys yn aelod newydd o'r gangen, a dymunwyd yn dda i Mrs Gwyneth Price sydd newydd symud i fyw i Fethel. Diolchwyd yn ddiifant iawn i'r aelodau am eu cyfraniad i'r gwasanaeth Nadolig pan gasglwyd £177.70 tuag at brynu adnoddau cyfrwng Cymraeg i blant sy'n dioddef o dyslecsia. Diolchwyd hefyd i'r Gymdeithas Lenyddol Undebol am ei chyfraniad i'r casgliad. Dymunwyd gwellhad buan i'r aelodau hynny a oedd yn absennol trwy waeledd neu anhwylder. Cyhoeddwyd bod Gŵyl y Gwanwyn ar y thema 'Synnu'r Synhwyr' yn cael ei chynnal i aelodau'r Mudiad, 10 Mai (cost £10, gan gynnwys cinio) a gwahoddir unrhyw aelod sydd â diddordeb i roi ei henw i'r ysgrifennydd cyn gynted ag y bo modd.

Gwestai'r noson oedd Ffion Johnson, Bethel, a siaradodd yn ddifyr a diddorol am ei gwaith fel fferylllydd yn Ysbyty Gwynedd. Diolchwyd iddi gan Mrs Eirlys Williams, Y Ddôl. Enillydd y raffl oedd Mrs Eryl Roberts, Bryn Rhedyn.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen nos Fercher, 12 Chwefror, am 7.30 o'r gloch, pan fydd Julie Jones yn sôn am grefft cwilio. Bydd croeso cynnes a diffuant iawn i bawb gan gynnwys unrhyw un a ddymuna ymuno â'r Merched — dowch a mwynhewch y croeso.

Y Neuadd Goffa: Enillwyr y Clwb 200 am fis Rhagfyr — £20: Annie E. Williams, Tŷ Newydd (41); £10: Eileen Griffiths, Ivy Cottage (190); £5 yr un: Beryl Jones, 25 Bro Rhos (145); Rachel Hughes, Coed Bolyn (122); Olwen Jones, 14 Bro Rhos (11); Ian Pierce, Swyn yr Awel (206); Gwynfor Jones, 24 Cremlyn; (225); Lona Jones, 6 Stad Eryri (78); Carol A. Jones, Penmaen, Saron (98); Jackie Jones, Tŷ Catrin (44).

Enillwyr Raffl Nadolig y Neuadd oedd — £50: Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth, Bethel; £30: Miss Meira Williams, 2 Tai Betws, Llanbedr-goch; £20: Eryl Roberts, Bryn Rhedyn, Bethel; siocled: Hughes, 43 Bro Eglwys, Bethel; gwin: Tŷ Capel

Cysegr, Bethel; siocled: lolo d/o Cilan, Tan-y-cae, Bethel; gwin: Val Griffiths, 7 Tan-y-buarth, Bethel. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb gefnogodd y raffl yma.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Yn ystod y tymor bydd nifer o'r plant yn ymweld â Choleg y Brifysgol ym Mangor i gael profiadau mewn gweithdai gwyddonol.

Eleni eto fe estynnir gwahoddiad i Glwb Bro Bethel i'r Cyngerdd Gŵyl Ddewi a gynhelir bnawn Mawrth, 4 Mawrth, ac yna i gael paned wedi'i pharatoi gan blant hynaf yr Ysgol.

Croesawn Miss Ffion Jones, Caernarfon, atom am gyfnod yn ystod mamolaeth Mrs Janet George.

Mewn cyfarfod o bwyllgor Cymdeithas Rhieni/Athrawon nos Fawrth, 14 Ionawr, trefnwyd dwy noson — un yn addysgol a'r llall yn noson gymdeithasol. Nos Fawrth, 4 Chwefror, ceir noson addysgol ar effeithiau cyffuriau. Ceir cyfle i rieni ac athrawon gael gwybodaeth neu ofyn cwestiynau am effeithiau cyffuriau ar bobl ifanc. Yna nos Wener, 7 Mawrth, gobeithir trefnu Twmpath Dawns yn y Neuadd Goffa o 7 tan 9 o'r gloch. Bydd lluniaeth ysgafn ar y noson. Ceir mwy o wybodaeth yn nes ymlaen.

Mae staff yr ysgol yn gobeithio perfformio sioe gerdd cyn gwyliau'r Pasg. Cyhoeddir y dyddiad a'r manylion yn fuan wedi hanner tymor.

Enillwyr Clwb 100 mis Tachwedd — £20: G. Williams, Penterfyn, Llanrug (76); £12: Alwyn Williams, Bro Hedd, Llanddeiniolen (68); £8: Glenda Ann Owen, Snowdonia, Y Rhos (53); £5: Joan Ginsberg, 2 Celtic House (23); £3: Gwenan Williams, Arfon House (88). Enillwyr Rhagfyr — £20: Eifion Jones, Glasgoed (93); £12: Iona Williams, Alun House (90); £8: Steven a Sian Jones, 26 Stad Eryri (31); £5: John Williams, Tyddyn Diffr (57); £3: Idris Morris, Penlôn, Llanddeiniolen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Yr Urdd: Dyma dymor yr Eisteddfodau ac mae aelodau'r gangen yn brysur yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Cylch o dan 12, a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, 1 Mawrth. Bydd cyfle i glywed y plant mewn Noson Goffi yn y Neuadd Goffa, nos Wener, 28 Chwefror. Bydd tocynnau ar werth am 50c cyn bo hir. I bawb sy'n cystadlu fel unigolyn, mae'r enwau i fod i mewn erbyn 14 Chwefror i Glenys Griffiths, Llwyn Eithin (01248) 670102. Ni dderbynnir enwau a gyflwynir wedi'r dyddiad hwnnw.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

AA Specialist
MOT
RAC Selected



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



DRAENOG



Mae'r hen ddefaid yn bla o gwmpas strydoedd Llanberis eto eleni. Maen nhw'n poeni cymaint ar un cyfaill nes iddo godi amddiffynfa gadarn yn eu herbyn. Bu'n rhaid gosod dwy garreg enfawr ar ddau biler giât y tŷ i rwystro'r defaid rhag dringo drosodd i chwilio am borfa. Un da ydi hwn am feddyginiaeth rhag pla'r defaid, fel y cofiwch ers yr adeg yma y llynedd.

CHWILOTA HEN ENWAU HEDDIW



Yng nghasgliad Llys y Chwarter Sesiwn yng Nghaernarfon mae copi o drosglwyddo tir yn Llanrug yn dyddio o'r flwyddyn 1566. Mae dwy ffaith ddiddorol o'r dogfennau hyn. Yn gyntaf, mae enwau nifer o'r daliadau tir bedwar can mlynedd yn ôl yn parhau'n enwau ar ffermydd yn ardal Llanrug heddiw; ac yn ail, mae camgymeriad yn y dogfennau gwreiddiol nad ymddengys iddo ddod i sylw'r twrneiod ar y pryd.

Dyma gopi o'r ddogfen gyntaf:

- 1566: January 8 1. Morgan ap Richard ap Jenkyn, free tenant of the township of Ruke.
2. Maurice ap John Wynne, esquire.

FEOFMENT of tenement called **TUTHYN Y GARTH** alias **TIR MEIBION JANKYN** township of Ruke, lying between the close of Morgan ap Richard ap Jenkyn called **KAY'R WEDDAS** to the East and lands called **DRWS DAYGOID** to the West, lands called **TUTHYN RRYTHID** to the South and a place called **ADWY URDDYGAY** to the North.

Consideration £4.

Mae'r ail ddogfen yn darllen fel hyn:

- 1566: January 19 1. Maurice ap John Wyn, esquire.
2. John Smyth, gent, and Maurice ap Hugh ap Grono, yeoman.

Deed of Attorney to accept possession and seisin of **TUTHYN Y GARTH** alias **TIR MEIBION JANKYN**, township of Ruke.

Dichon fod angen egluro ambell air sy'n ymddangos yn y dogfennau. Nid yr un ystyr oedd i 'tref' ers talwm ag sydd iddo heddiw. Golygai gasgliad o aneddiadau, a chyfeirid at drigolion 'trefi' arbennig. Yn y fro hon, y trefi pwysicaf oedd Dinorwig (nid y pentref presennol ond ardal Llanddeiniolen), Dolbadarn (Llanberis), Rug (Llanrug), Prysgol, Rhuddallt a Chastellmai (ardal Caethro), a Treflan (Waunfawr a Betws Garmon). Yn ddiweddarach y ffurfiwyd y plwyfi fel unedau seciwlar, a chyfuno nifer o'r 'trefi' hyn i'w ffurfio.

Felly, yn ôl y ddogfen gyntaf, mae tir ar rent (*tenement*) Morgan ap Richard ap Jenkyn o 'dref' Rug (*Ruke*) yn cael ei

drosglwyddo (*feofment*) i Maurice ap John Wynne, un o deulu Gwydir yn Nyffryn Conwy. Cae'r Weddus (*Kayr Weddas*) oedd eiddo Morgan ap Richard ap Jenkyn; fferm fechan sy'n bodoli hyd heddiw yn ardal Tan y Coed, ac ar gyrion Parc Minffordd. Sylwer mai fel 'close' y disgrifir Cae'r Weddus yn y ddogfen drosglwyddo. Yr ystyr wreiddiol iddo oedd cae bychan wedi ei gau â wal gerrig neu â gwrych. Fe'i lleolid yn agos i'r tiroedd comin. Mae Parc Minffordd heddiw yn enghraifft dda o'r math o dir a oedd yn gyffredin iawn dros y cyfan o Ros Rug cyn i Ddeddfau'r Cau'r Tir Comin achosi newid yn y dirwedd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ond ble roedd Tyddyn y

Garth neu Dir Meibion Jankyn? Cae Siencyn yw'r enw presennol ar y tyddyn, ond mae'n amlwg iddo gael ei alw yn Ty'n y Garth hefyd (Cofrestrau Plwyf Llanrug, 1797), ac yna'n Bryn Siencyn (1828) a Chae Siencyn (1831).

Mae gweddill yr enwau yn y ddogfen drosglwyddo yn gyfarwydd. Drws Deugoed (*Drws Daygoid*) yw'r fferm i'r gorllewin, fferm a ddaeth yn ddiweddarach i feddiant Dr Morris, ac a ewyllysiwyd ganddo (ynghyd â thiroedd eraill yn Llanrug a Chaernarfon) i sefydlu cronfa i brentisio ac addysgu bechgyn tlodion o blwyfi Llanrug a Llanbeblig.

Y fferm nesaf yw Tyddyn Rhyddid (*Tuthyn Rrythid*), enw y gellir ei olrhain i hen, hen ddaliadau tir yn 'nhref' y Rug. Yr enw gwreiddiol oedd Rhirid, ac yr oedd Tegir ap Rhirid a Genythlyn ap Rhirid yn berchnogion tir yn y Rug bron i saith can mlynedd yn ôl. Newidiodd yr enw drwy gyflythrennu o Rhirid i Ryddid.

Yr olaf o'r ffermydd a enwir yw Adwy'r Ddau Gae (*Adwy Urddygay*). Diflannodd yr enw hwn pan newidiwyd yr enw i Bryn Maen. Ceir cadarnhad o hyn yng Nghofrestrau Plwyf Llanrug yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg oherwydd pan gyfeirir at Bryn Maen, yn aml iawn mewn cromfachau ceir 'neu Adwy'r Ddaugae' neu 'alias Adwy'r Ddaugae'. Dywed traddodiad fod pregethu cynnar gan y Methodistiaid yn yr ardal wedi digwydd ar dir y fferm hon, ac mai oddi ar y 'maen' y traddodid y bregeth.

O fewn y mis, derbyniwyd perchnogaeth a meddiant (*seisin*) Tir Meibion Siencyn gan rhyw John Smyth a Maurice ap Hugh ap Grono. A dyna'r cyfan a wyddom am hanes un darn bychan o dir yn Llanrug yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg.

A beth tybed am y camgymeriad yn y ddogfen wreiddiol? Fe gai cyfreithwyr heddiw hwyl garw (a llawer o arian rwy'n siŵr!) yn dadlau dilysrwydd y ddogfen. Mae

cyfeiriad dwy o'r ffermydd sydd ar y terfyn â Thir Meibion Siencyn wedi eu cam-leoli. Yn y ddogfen wreiddiol enwir Tyddyn Rhyddid i'r de, ac Adwy'r Ddaugae i'r gogledd, ond hollol groes i hynny yw lleoliad cywir y ddwy fferm.

MWYNGLODDIO COPR YN LLANBERIS

Ar y llethrau uwchlaw pen uchaf Llyn Peris gellir gweld o hyd olion yr hen weithfeydd copr — y diwydiant cynnar hwnnw a ddenodd ymfudwyr yma ymhell cyn i'r chwarel lechi ar ochr arall y dyffryn sefydlu ei hun fel prif ddiwydiant y fro. Yn ddiweddar deuthum ar draws cofnodion o gylchlythyr y *Plymouth Caving Group* am 1993. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn archwilio siafftau ac ogofau yr hen weithfeydd copr ers dros bymtheg mlynedd, a'u mesur a'u mapio'n ofalus. Mae'n amlwg mai gwaith araf a llafurus fu'n eu hwynebu gan fod cymaint o'r hen lwybrau tanddaearol wedi eu boddi gan ddŵr traenio o'r llechweddau. Yn 1993 roedd rhannau helaeth o'r hen weithfeydd yn parhau heb eu cofnodi na'u harchwilio ganddynt. 'Sgwn i beth yw'r sefyllfa erbyn heddiw?


Mae llawer o'r geiriau a ddefnyddir gan y grŵp yn eu hadroddiad yn bur dechnegol, a byddai angen geiriadau termau

SNOWDON KITCHENS

**57 STRYD FAWR
LLANBERIS**

(01286) 870555/870443

**CEGINAU, TEILS SERAMIG
ANRHEGION**



'Dyw cegin SNOWDON KITCHEN yn costio DIM MWY na cheginau'r siopau mawr DIY, ond cymharwch ansawdd ein ceginau ni. Rydym yn cynnig:

- Ceginau cadarn da mewn derw, castanwydden (chestnut) a phîn
- Dewis eang o lamineiddiau modern
- Corff mewn dewis o 8 lliw cydnaws
- Droriau a cholynnau cadarn
- Dewis da o wahanol feintiau
- Maint arbennig ar gael os oes angen
- Crefftwy'r lleol yn ymfalchio yn eu gwaith
- Prisau rhesymol ar gyfer gosod a dodrefnu
- Llythyrau canmol a chwsmeriaid bodlon
- Gwerthu gonest, prisau gonest

HEFYD: GWASANAETH NEWID DRYSAU A 'WORKTOPS'

AR AGOR SAITH DIWRNOD YR WYTHNOS
FFONIWCH PETER ROOKE AM BRISIAU A
GWASANAETH CYNLLUNIO DI-DÂL

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

**BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**


**NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!**

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



**(01286) 671181
(0831) 326160**





Car modur Bryn Bras (tua 1900-1907). Wrth y llyw y mae Ann Jane Jones, Llanrug; wrth ei hochr, Yvonne Barnard, merch Bryn Bras; ac yn sefyll mae Mrs Barnard.

ogofau i'w deall yn iawn — beth tybed yw *gunnice, run-in portal*, a *rebelay* er enghraifft?

Ar hap a damwain y deuthum ar draws y cofnod — ond mae'n amlwg fod gan y grŵp hwn wybodaeth bwysig am fwyn-gloddio cynnar yn ein bro. Tybed a yw'r wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i Amgueddfa'r Gogledd neu i Archifdy'r Sir?

Y CAR CYNTAF YN Y FRO?

Pwy tybed oedd perchennog y car modur cyntaf yn y fro? Anfonwyd y llun gan Elwyn Jones, Dunstable (Llanrug gynt). Mae'n honni mai dyma'r car cyntaf a ddaeth i Lanrug, sef eiddo Mr Frank Stuart Barnard

o Gastell Bryn Bras. Mae hefyd yn gallu dyddio'r llun yn weddol gywir: 'Roedd fy mam, Ann Jane Jones, yn nani i Yvonne, merch fabwysiedig Mr a Mrs Barnard. Tynnwyd y llun yn gynnar yn y ganrif hon, oherwydd roedd fy mam wedi gadael eu gwasanaeth erbyn y flwyddyn 1907.'

Mae'r llun felly yn dyddio cyn 1907. Oes rhywun sy'n arbenigwr ar geir modur yn gallu dweud pa fath o gar a welir yn y llun, neu pa flwyddyn oedd ei wneuthuriad? A wyddoch chi am gar cynharach na hwn a ddaeth i fro'r Eco.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Y Gymdeithas Undebbol: Cafwyd cychwyn rhagorol i ail ran rhaglen y Gymdeithas ar ddechrau blwyddyn newydd pan gynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol dros ben yn y Ganolfan, nos lau, Ionawr 9fed. Aelodau Capel Sardis fu'n gyfrifol am lunio'r gwasanaeth gyda darlenniadau ac emynau amserol iawn ar ddechrau blwyddyn arall. Cafwyd cyfraniad gan sawl aelod o'r Gymdeithas gyda Mrs Margaret Cynfi Griffith wrth y piano. Cofiwyd

yn arbennig am Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, gan ddymuno adferiad llwyr a buan iddi.

Erbyn i'r nodiadau yn weld golau ddydd fe fydd Parti Clychau'r Grug wedi bod yn diddori'r aelodau ar nos lau, Ionawr 23ain. Yna ar y 6ed o Chwefror bydd noson yng nghwmni Mr Neville Hughes, Bethesda, gyda Miss Marian Jones yn llywyddu. Ar yr 20fed o Chwefror tro Mr Ralph

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Diolchiadau: Dymuna Dilys Jones, Cytir, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty ac am y cardiau, blodau a'r galwadau ffôn ar ôl dod gartref. Diolch yn fawr.

Dymuna Iwan a Meinir, 18 Ffordd Glanffynnon, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch Siân Angharad ar Dachwedd 30ain.

Eglwys M.C. Brynrefail: Brynhawn Sul, Rhagfyr 22ain, dathlwyd y Nadolig gyda gwasanaeth Carolau a drefnwyd gan Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Daeth cynulliad da ynghyd a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr Richard W. Evans, Ty'n Buarth. Yn dilyn cyflwyniad plant yr Ysgol Sul a'u hathrawes, Mrs Mair Davies, o ddramodig fer 'Y Geni' fe anrhegwyd y plant — Caryl ac Awen, Rhian ac Anna, Dylan, Elen ac Amy am eu gwaith gydol y flwyddyn gan Mrs Jennie A. Roberts.

Cymerwyd rhan ymhellach gan Mr Maurice Jones, Meillionen; Mr Emyr Williams, Llwyn Iorwg; teulu Rhandir — Hefin, Ifanwy ac Einir Gwyn; Miss Alice Williams, Caernarfon; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc; Mr R. J. Williams, Tyddyn Badin; Mrs Betty Owen, Tros yr Afon; Mr Norman Williams a Mrs Lowri P. Roberts Williams, Godre'r Coed.

Nos Sul, Ionawr 5ed, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dechrau blwyddyn. Cymerwyd rhan gan Mr R. W. Evans, Mr Gwyn Hefin Jones, Mrs Jennie A. Roberts a Mrs Lowri P. Roberts

Williams. Yn yr oedfa nos Sul, Ionawr 12fed, gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Parchg S. O. Hughes, Bethel.

Bydd trefn yr oedfaon am fis Chwefror fel a ganlyn:

2: Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon (2.00)

9: Mr David Williams, Bethel (5.30)

16: Parchg Emrys Thomas, Caernarfon (2.00)

23: Mr Evan Jones, Bontnewydd (5.30)

Rhaglenni Teledu: Dros y Nadolig cafwyd cip ar ambell olygfa leol ar y teledu — glannau Llyn Padarn a Swyddfa'r Post yn rhaglen ddiddorol Stewart Jones yn olrhain ei achau; a chip frysio yn y rhaglen am y bardd R. Williams Parry o'r Hen Ysgol Ramadeg — llun digon pell gobeithio fel na chafodd neb fawr o gyfle i sylwi'n fanwl ar gyflwr cwbl annerbyniol yr adeilad erbyn hyn. Ond trueni mai hynny'n unig a ddangoswyd ac a adroddwyd am bentref Brynrefail yn y rhaglen arbennig hon. Fe'n hysbyswyd i'r bardd fod yn athro yn yr ysgol o 1908-1910 ond yn ystod y cyfnod hwn, lletyai yn hen ffermdy Bryn Derw ar gwr y pentref. Roedd y diweddar Mr Meredydd Foulkes (sydd a'i ddisgynyddion yn parhau yno) oedd yn blentyn ar yr aelwyd yn y cyfnod hwnnw, bob amser yn ymhyfrydu mai ym Mryn Derw roedd yn aros yn ystod y cyfnod cyn ennill ohono'r Gadair Genedlaethol yn Eisteddfod Bae Colwyn, 1910, am ei gampwaith, sef awdl 'Yr Haf'. Tywyswyd llawer un o'r fro i barlwr Bryn Derw dros y blynyddoedd a'i hysbysu mai honno oedd ystafell weithio'r bardd. Yn ei lyfr cynhwysfawr ar Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail dywed y diweddar Barchg J. Pritchard, Llanberis, fel hyn: '... anodd meddwl am ddwy flynedd bwysicach yn hanes unrhyw athro. Yn y cyfnod byr hwn cyrhaeddodd binacl ei enwogrwydd fel bardd a llenor.' Sonia'r bardd ei hun am drafod helyntion yr amseroedd ym mharlwr hir Bryn Derw ac am droeau hir i gyfeiriad Cegin Arthur ddwywaith neu dair yr wythnos, ac meddai, '... ni welais na chynt nac wedyn fro mor farddonol a honno ... os bŵm fardd erioed, dyna'r pryd y bŵm.'

Jones o Lanberis fydd hi i annerch yr aelodau gyda Mr Glyn Tomos yn llywyddu.

Felly mae yna nosweithiau difyr i edrych ymlaen tuag atynt. Fe ddaw tymor y Gymdeithas i ben ar y 6ed o Fawrth gyda chinio Gŵyl Ddewi a gynhelir yng Ngholeg Pencraig, Llangeferni. Os ydych am fynd i'r cinio mae Miss Marian Jones yn awyddus i chwi gysylltu â hi mor fuan ag sydd bosib, os gwelwch yn dda.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr
DEINIOLEN

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffon:
(01286) 675754

Bistro
LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro Nos Wener olaf bob mis

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Ionawr 14, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Mair Huws. Dymunwyd blwyddyn newydd dda a llewyrchus i bawb. Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Cyngor yr Henoed. Cynhelir Gŵyl Wanwyn ym mis Mai yn Neuadd John Phillips, Bangor a'r pris fydd £10 — enwau rhag blaen i Mary Roberts, Gwyndy, os gwelwch yn dda. Gobeithir cael cynrychiolaeth i'r Wyl Gelf a Chrefft. Paratoir lluniaeth ysgafn ar gyfer Eisteddfod Cylch Arfon ar Sadwrn, 1 Mawrth, gan aelodau'r gangen a bydd Meirwen Lloyd yn hynod falch o gyfraniadau.

Estynnwyd croeso cynnes i Ceren Jones gyda'i chasgliad cywrain o emwaith. Dangosodd inni sut y mae'n profi aur gydag asid nitrig, a thrwy gryfhau'r asid dangosodd sut i brofi'r carat. Wrth ychwanegu asid at arian fe aiff yn liw coch tywyll ac os nad ydyw'n arian pur fe fydd yn aros yn lliw oren. Roedd casgliad drudfawr o jets ganddi a dangosodd inni'r gwahaniaeth rhwng y rhai pur a'r rhai ffug — roedd y rhai pur yn gynnes ac esmwyth gyda swm gwahanol. Roedd ganddi berlau drudfawr gyda llinell binc hyfryd yn rhedeg drwyddynt ac roeddent yn berffaith grwn a chynghorwyd ni i beidio rhoi persawr yn agos iddynt! Fe ddaeth rhai aelodau â'u gemwaith ac fe gafodd ambell un gyngor da ar sut i edrych ar ôl eu trysorau.

Diolchwyd i Ceren am noson hynod ddifyr gan Myfanwy Parry. Myfanwy hefyd a enillodd y raffl. Diolchodd Julie i Margaret, Ann a Nan am wneud y banded. Gwestai mis Chwefror fydd Bethan Jones Parry.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Llongyfarchiadau mawr i Eifion Williams, Bl. 6, ar ei lwyddiant yn y Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yn Llanelli yn ddiweddar. Enillodd fedal aur am y dull rhydd, a medal arian am y dull brog. Da iawn chdi.

Cafodd 31 o ddisgyblion Bl. 5 a 6 gyfle i fwynhau'r gweithgareddau yng Nglan-llyn, Ionawr 7-10, dan ofal Mr Wyn a Mr Griffith. Ymysg y profiadau mwynhawyd sgio, bowlïo deg a dringo, a bu'n gyfle i wneud cyfeillion newydd hefo plant Ysgol y Gelli a Chwm-y-glo.

Er fod y plant wedi blino'n lân ar

ôl bod yn y gwersyll, llwyddodd y bechgyn i godi'n fuan y bore Sadwrn canlynol i gymryd rhan yng nghystadlaethau pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd. Yn y pwn bu tîm pêl-rwyd y genethod yn cystadlu. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto.

Cofiwch am Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ar 1 Mawrth; a'r Eisteddfod Ddawnsio yn Ysgol Syr Hugh Owen, 21 Chwefror.

Bu Mr Thomas, swyddog datblygu rygbi Gwynedd yn rhoi hyfforddiant i ddisgyblion Bl. 3 a 4 am dair wythnos yn ystod mis Ionawr. Roedd y plant wrth eu bodd!

Croeso i'r pedwar myfyrwr sydd wedi bod yn gweithio gyda rhai o'r dosbarthiadau. Byddant yn dychwelyd am fis ar ôl gwyliau'r Pasg. Hefyd bu Mrs Delyth Thomas yn treulio wythnos yn mynd o amgylch y dosbarthiadau fel rhan o'i chwrs ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ystod gwyliau'r Nadolig, yn y Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon, bu Urien Deiniol, Bl. 6, yn cystadlu yn rownd derfynol Cystadlaeth Agored Arfon. Gwnaeth yn arbennig o dda, enillodd dlws yr eilydd.

Gwellhad: Dymunwn wellhad buan i Mr Eddie Owen, 5 Ffordd Glanffynnon ac i Mrs Eirwen Williams, Bryn Gro, Ffordd Glanffynnon.

Priodas: Ar 14 Rhagfyr priodwyd Rhodri ap Llwyd, Glascoed, ag Eysyllt Jones, Bontnewydd. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd newydd yng Nghaerdydd. Mae Rhodri yn gweithio i'r Weinyddiaeth Amaeth ac Eysyllt yn dilyn cwrs Meddygaeth.

I Gofio'n Annwyl am annwyl fab, Len, a hunodd yn dawel ar Ionawr y seithfed 1996. Hiraeth mawr — ei fam a'r teulu i gyd.

Diolchiadau

Dymuna Iwan a Meinir, 18 Ffordd Glanffynnon, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llw anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch, Siân Angharad, ar y 30ain o Dachwedd.

Dymuna Mrs Dora Jones, 21 Hafan Elan, ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd dros y



Eysyllt Mererid Jones a Rhodri ap Llwyd ar ddydd eu priodas yng Nghapel Siloam, Bontnewydd. Llun: ISLWYN JONES

Nadolig ac ar achlysur ei phen-blwydd yn y flwyddyn newydd. Diolch hefyd i bawb a roddodd o'u hamser i ymweld â hi tra yn ymgartrefu tros dro yng nghartref yr henoed Llys Eiddon.

Carai Eysyllt a Rhodri ddiolch yn ddiffuant iawn am y caredigrwydd arbennig a dderbyniasant ar achlysur eu priodas cyn y Nadolig. Gwerthfawrogwyd yr holl anrhegion, y cyfarchion a'r dymuniadau gorau a anfonwyd iddynt gan deulu a ffrindiau yn yr ardal.

Dymuna Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan, ddiolch yn fawr iawn i Violet a Tom; Mr a Mrs Arthur Jones, a'i holl ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 97 oed. Diolch yn fawr. **Clwb leuenctid:** Llongyfarchiadau i Einir ac Awen am fod yn llwyddianus i fynd i'r rownd nesaf wrth chwarae pwl; ac i Meilir, Sion Hughes, Dyfan ac Emyr am ennill y rownd gyntaf o'r cwis — pob lwc iddynt yn yr ail rownd.

Mae gweithgareddau mis Chwefror yn cynnwys mynd i sgio i Blas y Brenin; ymweld â'r cwrt a'r carchar yng Ngharnarfon; Eisteddfod

clybiau leuenctid; a thaith gerdded nodedig i godi arian tuag at neuadd y pentref — byddwn yn ddiolchgar am bob cefnogaeth.

Plaid Cymru: 'Teithio' oedd teitl sgwrs Mrs Mary Vaughan Jones nos Fercher, 15 Ionawr, yng Nghanolfan Penisarwaun. Mae ei sgysiau a'i sleidiau bob amser yn ddiddorol, a'r tro yma aeth â ni ar daith i Awstralia, ble bu'n ymweld â chyn-ddisgyblion o Ysgol Brynrefail. Uchafbwynt y daith oedd ymweliad â'r Bariff Mawr (Great Barrier Reef) a chawsom gipolwg cyfareddol o dan y dŵr ar y cwrel o bob math a'r pysgod lliwgar. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs Phyllis Ellis, Llywydd y Gangen. Enillwyd y raffl gan Leslie Larsen.

Enillwyd y Clwb Cant am fis Rhagfyr — 1, Gwilym Griffith, Pant Tirion; 2, Berwyn Jones, Glan Ffynnon. Mis Ionawr — 1, Gwenda Roberts, Hafle; 2, Margaret Jones, Dwyros.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, 19 Chwefror, yng Nghanolfan Penisarwaun, pan fydd John M. Morris yn rhoi sgwrs ar gerflunio ac arlunio. Croeso cynnes i bawb.



ALOE VERA


Am well iechyd yn naturiol, profi'wch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin

fel:- **Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth,**

I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni

Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.

am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746



Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR GYFER PICLO

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Dyweddio: Llongyfarchiadau i Nigel Lewis, Ael-y-bryn ar ei ddyweddïad â Suzig Hodgkinson o Gaernarfon. **Dathlu Priodas Aur:** Bu Mr a Mrs Elfed Roberts, Dwyros, yn dathlu cyrraedd eu Priodas Aur ar yr wythfed o Ionawr. Llongyfarchiadau mawr ichi eich dau. Dymuna Mr a Mrs Roberts ddiolch i'w perthnasau a'u ffrindiau am yr anrhegion, blodau, arian, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Maent wedi cyfrannu'r arian i achosion da.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i Bryn a Carmen Pierce, Bryn Gwyn, ar enedigaeth eu merch fach, Angharad, ac i Elfyn a Glenys Pierce ar ddod yn daid a nain i'r fechan.

O fewn ychydig wythnosau daeth Dick a Gwendoline Rowland, Bryn Golau yn daid a nain i wŷr bach arall, ganwyd Dion Meredydd i Martin a Belinda, 1 Rhes Eilian. Llongyfarchiadau i'r rhieni hapus.

Llongyfarchiadau i lola a Rhys, Tegannedd, ar enedigaeth eu merch fach Gwenllian.

Llongyfarchwn hefyd Anna a David, Ty'n Ceunant, ar enedigaeth eu mab bychan.

Dathlu Penblwydd: Yn ystod mis Ionawr bu Tracy McDaid, Talarfon, yn dathlu cyrraedd ei 18 oed; a Fflur Llywelyn, Stad Tref Eilian, yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed. Bu Miss B. Jones, 1 Tref Eilian, yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 90 mlwydd oed. Dymuniadau gorau i'r tair ohonoch.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Bethan Tomos, Ty'n Llain; Mr Rol Williams, Ardwyn; Mr Ray Johnstone, Tŷ Gwyn; Mr Brian Henderson, Bryn Gwynedd; Mrs E. Parry, Teras Eilian, a Mr Gwilym Madoc Jones, Bro Waun, adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan ichi.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i Mr David Parry, Bro Waun, yn ei brofedigaeth o golli ei fam o Gaernarfon.

Cydymdeimlwn â theulu a chyfeilion y ddiweddar Mrs Parry Williams, Gwynfa, a fu farw'n dawel yng nghartref preswyl Marbryn, Caernarfon.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Beryl Jones, Dol-y-coed, yn ei

phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Jones-Evans, Pennant.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni, yn ei phrofedigaeth o golli ei llysdad yn ddiweddar.

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Lun, 13 Ionawr, cyfarfu'r Gymdeithas yn y Ganolfan i wrando ar ddarlith gan y Prifardd Meirion MacIntyre Huws ar y testun 'Rhoi Llun ar Bedair Llinell', ac fel y dywedodd y cadeirydd, Mr R. Gwynn Davies, fe wnaeth yr englyn yn ddibyr i bawb a chafwyd trafodaeth fywiog ar y diwedd. Diolchwyd i Mr Huws gan Mr Iolo Huws-Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf 10 Chwefror, pryd y bydd Mr Bob Eaglestone, gyda chymorth ei wraig, yn rhoi hanes 'Pererindod ar gefn beic i Santiago di Compostela'.

Merched y Wawr: Cyfarfu'r gangen nos lau, 21 Tachwedd, dan lywyddiaeth Mrs Mary Vaughan Jones. Ein gŵr gwadd oedd Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, a fu'n sgwrsio'n gartrefol ar hanes y Waun a phlwyfi'r ardal. Diolchwyd iddo gan Sylvia P. Jones. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Alma Jones a Mrs Beryl Jones.

Nos lau, 12 Rhagfyr, buom yn gwledda yng Nghastell Cidwm. Roedd y bwyd yn rhagorol a chawsom noson hamddenol braf yno, o flaen tanllwyth o dân coed. Diolchodd Marian Jones i'r perchnogion am y croeso cynnes.

Carwn ar ran y gangen estyn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Beryl Jones a'r teulu, Dôl-y-coed, ar golli ei mam.

Plaid Cymru (Cangen Waunfawr a Chaeathro): Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Fercher, 8 Ionawr, i lunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn newydd. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n cynorthwyo hefo'r Ffair Nadolig ac i'r pentrefwyr am gefnogi'r noson.

Agorir y gweithgareddau gyda thaith gerdded i Landdwyn ar 1 Chwefror i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen, yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones a Duncan Brown. Ymgynull ym maes parcio'r Ganolfan am 1 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Ceir mwy o fanylion oddi wrth Gill Brown neu ar y posteri sydd i'w gweld o gwmpas y pentref.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Priodas: Llongyfarchiadau i Gareth Jones, Llety'r Wennol, ar ei briodas â Janet Jones yng Nghapel Wesle Trefaldwyn yn ystod mis Rhagfyr.

Tynfa Fisol: Enillwyr mis Rhagfyr oedd — £40: Eimir Wyn Roberts, 5 Erw Wen (63); £25: Geoff Drake, Castellmai (5); £10: Marian Huws, Tŷ Mawr (73); £5: Michael a Frances wyn Williams, Bodwyn. Diolch i bawb am gyfrannu drwy'r flwyddyn. Yn ogystal â chwrdd a chostau rhedeg y cae chwarae mae'r elw wedi cyfrannu at yr holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd dros gyfnod y Nadolig yn y pentref.

Enillwyr mis Ionawr — £40: G. Owen, 17 Tai Glangwna (45); £25: Mary Henderson, 6 Erw Wen (78); £15: A. Williams, Y Wern (17); £5: Peris Thomas, 4 Bryn y Gof (54).

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Waunfawr, ar 14 Ionawr 1997. Penderfynwyd fod adeg gwyliau'r Pasg yn adeg delfrydol i ddad-

orchuddio'r gofeb i Syr William Preese. Yn sgîl y cais cynllunio unioni'r datblygiad o ganlfan lorïau a sgipiau yn Rhyddallt Ganol fe benderfynwyd gwrthwynebu'r cais oherwydd yr effaith andwyol ar y mwynderau lleol, gan gynnwys y llwybr cyhoeddus gyferbyn. Er mwyn ceisio hybu gwaith drwy dwristiaith mae posibilrwydd o gyhoeddi taflen ar gyfer ymwelwyr i'r ardal o Rhyd-ddu i Gaeathro i'w ymchwilio ymhellach.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Chwefror,

2: Parchg W. R. Williams (2)
9: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)
16: Parchg W. R. Williams (10)
23: Parchg Gareth Maelor (2)

Ar Werth: Mae diwedd cyfnod wedi cyrraedd gyda'r arwydd 'Ar Werth / For Sale' yn ymddangos ger Bodwel. Ond pam mai'r 'Chapel House and Vestry' sydd ar werth ac nid y 'Tŷ Capel a'r Ffestri'?

Diolchiadau

Dymuna lola, Beryl a'u teuluoedd ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer arnnwyl. Diolch arbennig i Mrs Thomas a staff Y Foelas, Llanrug, am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch i Dr Williams, y nyrsus lleol a staff y Feddygfa am bob gofal.

Dymuna Evan ac Alice Hughes, 3 Bryn Golau, ddiolch i berthnasau, pell ac agos, ffrindiau a chymdogion am eu anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch arbennig i'r genod am drefnu gwledd ddirgel yng Ngwesty'r Fictoria, Porthaethwy.

Dymuna Mrs G. Thomas, Stad Tref Eilian, ddiolch i'w thelu a'i ffrindiau am y galwadau ffôn, cardiau a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref.

Dymuna Tina Parry, Bryn Golau ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniodd hi a Jason gan ei theulu a'i ffrindiau tra bu Jason yn cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Rydym yn fach o weld Phil, Delyth a'u mab bychan, Carwyn, Gwylfa, yn gwella wedi iddynt gael damwain car yn ddiweddar.

Dymunaf ddiolch i Marian Wyn Jones ac Olwen Owen a aeth i Lanrug i blygu'r rhifyn y Nadolig o'r Eco.

Enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr — £40: Mr V. B. Davies, Bryn Gwyrfa; £25: Mr T. E. Jones, Cartrefle; £10: Mr S. Jones, Tyn Cae.

Enillwyr mis Ionawr — £40: Mrs Glenys Williams, Tyn Weirglodd; £25: Mr a Mrs Greasley, Minafon; £10: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn. Oherwydd y costgau cynyddol i gwblhau'r estyniad i'r Ganolfan mae'r pwyllgor yn ystyried gwahanol ffyrdd o godi arian. Un syniad yw ceisio codi aelodaeth y Clwb 300. Fel y gŵyr y rhan fywaf ohonoch mae'r Clwb yn talu tair gwobr ariannol bob mis a'r lleiafswm tâl aelodaeth yw £1 y mis. Dyma gyfle ymarferol i bawb yn y pentref i helpu eich Canolfan leol. Os dymunwch ymaelodi cysylltwch â Dewi Jones, Dôl y Coed (ffôn: 650345) neu Edgar Owen, Glyn Awel (ffôn: 650594).

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**



**SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR**

**Basgedi Blodau Sych ★ Siwti
Jams ★ Briwgig ★ Siampw
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi
Teganau Meddal ★ Mobiles Pren**
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.
Ffôn: (01286) 650721

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Clwb Ieuencid Deiniolen: Croesawyd henoed y pentref i'r Clwb nos Fercher, 4 Rhagfyr, i fwynhau noson o bingo, paned o de a mins peis. Daeth oddeutu 20 o'r henoed i'r cyfarfod a bu'r aelodau i gyd yn brysur un ai yn gwneud mins peis, gwneud y te, neu yn galw rhifau'r bingo. Cafwyd noson hynod lwyddiannus, a chafwyd hwyl garw, yn arbennig felly wrth i Hywyn alw'r rhifau yn ei ddull unigryw! Diolch i Gwenlli (Bull) am gyfrannu'r llyfrau eto eleni; a diolch i'r henoed am ddod atom gan ddanos diddordeb yn yr hyn y mae'r ieuencid yn ei gynnal. **Y Ganolfan:** Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus 1996 Y Ganolfan ar nos Wener, 13 Rhagfyr. Fel ym mlyneddodd y gorffennol roedd y gynrychiolaeth yn eithriadol o siomedig. Ar wahân i bedwar aelod etholedig y Pwyllgor Rheoli, a phump o'r chwech o'r aelodau a enwebwyd gan fudiadau'r pentref i'w cynrychioli ar gyfer Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan am 1996-97, UN aelod o'r cyhoedd yn unig oedd wedi amlygu digon o ddiddordeb i fynychu'r Cyfarfod Cyhoeddus.

Adroddwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd R. Leonard Jones, bod 394 o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn Y Ganolfan yn ystod y flwyddyn (194 ohonynt yn ddi-dâl). Diolchodd i'r prifathro a'r gofawyr am eu cydweithrediad.

Cyflwynwyd adroddiad y Trysorydd, Carolyn Davies, ar y fantolen am y flwyddyn yn diwedd 30 Tachwedd. Talwyd rhent o £789 i Gyngor Gwynedd, a thalwyd £495 am fyrdau newydd, ac am yswiriant y cyhoedd pan yn defnyddio'r Ganolfan. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd rhyw £1,716 yn sefyll yn ffafwr y Pwyllgor Rheoli, hyn i'w briodoli i gyfraniad o £300 gan Ymddiriedolaeth Deiniolen, a £150 arall gan Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen. Lleisiwyd diolch am y ddau gyfraniad sylweddol a derbyniol.

Etholwyd y chwe person canlynol a enwebwyd gan fudiadau'r pentref i'w cynrychioli ar y Pwyllgor Rheoli am 1996-97: Carolyn Davies (Clwb Ieuencid); Philip Guy (Clwb Pêl-droed); Eirlys Lloyd Jones (Clwb Cinio Cynfi); Margaret E. Jones (Merched y Wawr); Tydfil Jones (Y Gymdeithas Lenyddol); Yvonne Phillipson (Urdd St. Ioan).

Cefnogwyd cais o'r llawr yn gofyn i'r Pwyllgor Rheoli ystyried y priodoldeb o ymestyn Neuadd y Ganolfan fel y gellir cynnal rhai o ofynion arbennig pentref Deiniolen.

Ar ddiwedd y Cyfarfod Cyhoeddus cyfarfu'r Pwyllgor Rheoli 1996-97 i ethol y swyddogion canlynol am y flwyddyn — Cadeirydd: R. Leonard Jones; Trysorydd: Carolyn Davies; Ysgrifennydd Hurio: Gareth Lloyd Parry (prifathro); Ysgrifennydd Cyffredinol: Yvonne Phillipson.

Noder mai i Brifathro Ysgol Gwaun Gynfi y dylid cyflwyno ceisiadau o hyn ymlaen am ddefnyddio'r Ganolfan, a dylai'r taliad priodol gael ei wneud gyda'r llythyr cais.

Eglwys Crist Llandinorwig
Bedydd Esgob: Am 10.30 o'r gloch fore Sul, 9 Chwefror, yn Eglwys Crist Llandinorwig, bydd Kellie Ann Davies, 5 Pentre Helen; Alan Wyn Jones a Heledd Wyn Jones, Caerbythod, Blwt-y-bont, yn derbyn Bedydd Esgob a Chymun Cyntaf gan y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, Esgob Bangor. Dymunwn yn dda iddynt a hyderwn y byddant yn cymryd eu lle yn anrhydeddus ym mywyd Eglwys Crist.

Dydd Mercher y Lladw a'r Grawys: Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 6.30 o'r gloch nos Fercher, 12 Chwefror, yn Eglwys Crist Llandinorwig. Gwasanaeth unedig fydd hwn i blwyfolion Penisarwaun a Llandinorwig. Bydd gwasanaethau bob nos Fercher am 6.30 o'r gloch ar yn aill yn y ddau blwyf yn ystod y Grawys gan ddechrau yn Eglwys Santes Helen nos Fercher, 19 Chwefror. Ceir astudiaeth Feiblaidd i ddilyn. Croeso i bawb.

Cydymdeimlo: Ar ddechrau blwyddyn newydd anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad fel Eglwys i ddau deulu a gafodd brofedigaethau yn ddiweddar, sef teulu 4 Maes Gwylfa a theulu Glan Rhydfadog. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn wael ar hyn o bryd.

Undeb y Mamau: Bydd cyfarfod cyntaf o'r Gangen yn cael ei gynnal am 7 o'r gloch, nos Lun, 3 Chwefror. Y siaradwr gwadd fydd y Parchg Kathy Sandells-Rees, Caplan yr Eglwys Anglicanaidd yn Ysbyty Gwynedd. Roedd Kathy yn un o'r naw o ferched a ordeiniwyd i'r offeiriadaeth yn y gwasanaeth hanesyddol a gynhaliwyd yng



Cadlanciau Urdd St. Ioan, Deiniolen, gyda Mrs Gwennan Watkins, O.S.St.J., swyddog Cadlanciau sirol a Mrs J. M. Jones, O.S.St.J., swyddog adran Deiniolen.

Nghadeirlan Bangor ar 11 Ionawr. Y Parchedig Emyr Owen, Curaf Plwyfi Llanrug a Llanberis, fydd siaradwr gwadd cyfarof mis Mawrth a gynhelir nos Lun y 3ydd o'r mis. Gobeithiwn am gefnogaeth deilwng gan yr aelodau i'r ddau gyfarfod.

Ymdddeoliad: Ddiwedd mis Chwefror bydd cyn-ficer y plwyf, y Parchedig Ganon Evan Trefor Jones yn ymdddeol o'r Weinidogaeth. Ar hyn o bryd mae Canon Jones yn Rheithor plwyfi Abergwyngregyn a Llanfair-fechan. Dymunwn yn dda iddo ef a Beryl, ei briod, yn eu cartref newydd yn Llandudno, a diolchwn iddo am ei groeso mawr i ni fel plwyfolion bob amser pan fyddwn yn cael ein cyfarfodydd gefeillio rhyngom a'i blwyfi.

Urdd St. Ioan, Deiniolen: Nos Fawrth, 3 Rhagfyr, cynhaliwyd noson o adloniant yn y Ganolfan gan Urdd St. Ioan, gyda'r 'Badgers' a'r Cadlanciau yn cymryd rhan a ddilynwyd gyda lluniaeth ysgafn. Arweinydd y noson oedd Mrs Hilda Parry, gyda Lyndsey Vaughan yn cyfeilio. Cyflwynwyd tarian, cwpan a thystysgrifau gan Mr W. H. R. Lewis, O.S.T.J., comisiynydd Gwynedd.

Cyflwynwyd tarian er cof am Mr Griffith Thomas Jones, O.S.T.J., cyn-arylygwr St. Ioan, Deiniolen, i Alison V. Jones, 11 Ffordd Cibyn, Caernarfon, y Cadlanc gyda'r presenoldeb gorau a'r mwyaf o oriau mewn gwaith gwirfoddol yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd cwpan i Bethan Wyn Jones, 30 Hafod Oleu, Deiniolen am ennill y darion yn 1995. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r rhai canlynol am astudio hanes y mudiad: Alison Vanessa Jones, Bethan Wyn Jones, Ffion Haf Jones, Sinead C. Mary

Joknes, Lowri Ann Williams, Stephanie Clare Williams, Collette Williams, Catrin Jane Parry, Carol Ann Jones, Julie Ann Jones, Louise Mary Malloy, Tina Marie Taylor. Cyflwynwyd tystysgrif Cymorth Cyntaf i'r 'Badgers' canlynol — Michael John Jones, Kayleigh Jones, Ffion Owen, Jonathan Cyster, Mathew Humphreys, Robert Williams, Michelle Jones, Gwenllian Owen, Laura Hughes, Emma Heywood.

Diolch i Mrs Hilda Parry a Lyndsey am drefnu'r noson a dysgu'r plant. Diolch i Yvonne Phillipson a Donna Collins ac i'r rhai a anfonodd gacennau a helpu gyda'r lluniaeth.



Mr W. H. R. Lewis, O.S.T.J., Comisiynydd Gwynedd, yn cyflwyno tarian er cof am Mr Griffith Thomas Jones, O.S.T.J., i Alison Vanessa Jones, Caernarfon am bresenoldeb gorau a'r mwyaf o oriau yn gwneud gwaith gwirfoddol rhwng Medi 1995 a Medi 1996.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches

★ Byrddau Ffasia

★ Cladio

★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES



Llongyfarchiadau i Rachel Ward ar ennill ei belt du Karate. Derbyniodd Rachel ei thystysgrif gan Kevin Siddall ei hyfforddwr.

Carnifal Deiniolen 1997: Mae pwyllgor newydd wedi dechrau cyfarfod ers mis Tachwedd i drefnu Carnifal y pentref y flwyddynhon. Os oes rhywun am ymuno â ni, estynnir croeso cynnes i bawb. Byddwn yn cyfarfod nos Lun, 3 Chwefror, am 7 o'r gloch yn Nhafarn y Tarw.

Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn gweithio'n galed i godi arian er mwyn cael Carnifal lwyddiannus yn 1997. Byddwn yn falch dros ben am bob cymorth a chydweithrediad gennych fel pentrefwyr a busnesau lleol, wedi'r cwbl mae'r Carnifal i bawb. Dyddiad y Carnifal eleni fydd 5 Gorffennaf. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Helen Morris (01286) 870702.

Diolchiadau

Dymuna Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf ddiolch o galon i bawb



'Badgers' Urdd St. Ioan, Deiniolen, gyda Mrs Mair Lloyd Jones, S.S.St.J., cyd-gysylltydd sirol, ac arweinyddion y 'Badgers' Mrs Yvonne Phillipson a Donna Collins.

'Letter from America . . .'

Cambria
Wis.
August 24th 1883

Anwyl frawd,
Derbyniais dy garedig lythrau yn ddiogel ac mewn pryd; daeth un i'm llaw bore heddyw ychydig cyn ciniaw, ac roedd yn wir dda gennyf ddeall eich bod yn iach yna oll; yn dda iawn gennyf ddeall ym mhob llythyr fod Janet yn mendio, derbyniais lythyr oddiwrthi hi a mam o Criccieth rhyw 15 nos yn ol, ac yr oeddwn yn falch iawn o honynt hefyd. Ni feddyliais o'r blaen fod mam mor dda am lythyr, buasai yn ogystal a'r un ohonoch pe buasai ei llawysgrif ychydig well a'i sillafu. Byddaf yn sicr o anfon gair i Janet cyn hir, dywed wrthi fy mod yn ddiolchgar iawn iddi am anfon y papurau i mi. Yr wyf yn eu darllen bob un drostynt, ac y mae yn wir ddrwg gennyf ddeall oddiwrthyt fod chwarelwyr Dinorwig yn cael eu dibrisio gymaint gan y prif oruchwylwyr, yn wir roeddwn yn

am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch i'w phlant, teulu, ffrindiau a'i holl gydweithwyr yn Llanberis.

Dymuna Alun Wyn a Laura Evans ddiolch am y llu cardiau a'r rhoddion a dderbyniasant ar ddatlu eu Priodas Aur. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod gartref. Diolch yn arbennig i staff Ward Prysor am y gofal diflino. Diolch yn fawr iawn i bawb.

clywed fy ngwaed yn codi wrth ddarllen ysgrif 'Llathenydd' yn y Faner, ac yn wir yn chwerthin wrth weled rhywun yn ceisio ei ateb mor lliapa ar ol hynny.

Yr oedd yn wir ddrwg gennyf ddeall am modryb y Post fod ei gwr wedi ei gadael a dod drosodd yma; ac wedi myned mor isel arni hithau nes gofyn am gynhorthwy. Yr oedd rhyw deimlad rhyfedd ynnwyf pan ganfyddais yr hanes yn y Genedl. Fe'i derbyniais pan y deuthym i'r ty am giniaw, ac ar ol ei ddatod disgynnodd fy llygaidd yn gyntaf peth ar yr hanes yna fel pe buasai rhywbeth yn rhagluniaethol.

Mae'n debyg mai ateb dy gwestiynau fydd y peth cyntaf os callaf eu cofio hefyd. Yr oeddwn wedi derbyn tal am yr arfau gan Hugh Peris. Yr oedd yn syn gennyf ddeall nad oedd Thomas wedi mynd i fy lle, ac yntau mor selog amdano pan yr oeddwn yn cychwyn oddi yna. Y mae llawer eraill yn afreidiol i mi draethu arnynt oherwydd fy mod wedi gwneuthur yn y llythrau sydd yn dod yna yn wrth-gyferbyniol i'ch rhai chwi.

Cwestiwn arall oeddyt yn ei ofyn oedd, a oeddwn wedi wastio llawer, wel, mi ddywedaf y gwir ynghylch hyn etto, fel yr wyf wedi ceisio bob tro o'r blaen, gyda golwg ar fy nghorph fel y mae yn ymddangos i ddynion, ac fel y mae yn ymddangos i minnau, ac fel yr ydwyf yn teimlo fy hunan. Gyda golwg ar wastio, yr oeddwn wedi wastio 10 pwys yn rhywle rhwng Sinc Fawr Hafod Owen a Ty'n Llan Wisconsin. Ond yn awr yr wyf wedi ennill 5 pwys. Gobeithio yr ennillaf 5 eraill cyn hir. Yr wyf wedi ennill y 5 yma mewn 3 wythnos o amser. Nid wyf yn gwybod i fa beth y mae i mi briodoli hynny, os nad yn awr y mae y bwyd da wyf yn ei gael, a'r hinsawdd iachus yr wyf ynddi yn dechrau effeithio arnaf. (fel yr wyf yn ymddangos i ddynion.) Os y buaswn yn dod yna i olwg pobl yr hen wlad mae yn bur debyg y buaswn yn ymddangos yn fwy o Ianci nag y mae y bobl yma yn fy ngwled, ond y mae y rhai'n, ac yr wyf innau yn ffendio fy mod wedi altro yn fy lliw; Yr wyf wedi derbyn yr 'American colour', ac y mae yn bur debyg na wnaiff ymadael ohonof byth chwaith. Nid yr haul sydd yn newid lliw ac yn rhoddi un arall, er fod yr haul, ond yn fwyaf neillduol, y gwynt sydd yn gwneuthur y gwaith hwnnw.

Yr oedd yn dda gennyf ddeall eich bod wedi mynd drwy y cynheuaf mor llwyddiannus. Y mae wedi newid tywydd yn hollol yma, yr oedd yn hynod o wlyb yma braidd drwy y cynheuaf gwair, ond ychydig yn y diwedd, a byth er hynny y mae yn dywydd mwyaf iachus a welais erioed; yr awyr ym glir drwy y dydd a'r haul yn tywynnu yn ddisglair, ond nid yn boeth. Y mae yma awel o wynt fresh drwy y dydd yn lladd poethder yr haul. Rhyw 2 neu 3 diwrnod poeth y mae wedi ei wneud yma.

Bum yn gwneuthur gwaith nobl iawn am y ddwy wythnos ddiwethaf, sef beindio yr yd ar yr offeryn y maent yn ei alw yn Harvester, yr yr oedd yn waith na bum yn ei wneud o'r blaen, heb son am fod ar y machine drwy y dydd, Yr oeddyt yn dweud wrthyf pan ddaethom yma gyntaf am y beindio ar yr Harvester ei fod yn waith ofnadwy, ac y byddwn yn bur anhylaw y flwyddyn gyntaf. Ond y diwrnod a ddaeth i mi fod arni, myfi a Sam Alexander, y gwas yma, y mae dau i fod bob amser arni, a'r diwedd fu i mi, Owen, fod gystal ag yntau cyn pen 12 awr. Y mae yr offeryn yma yn 5 llath o led, a 2 a hanner o hyd, ac mae yn ofynol i gael 3 cheffyl i'w dynu a dau dyn i feindio, ac un i gertio. Y mae y lle i'r 2 feindar ar yr ochr chwith iddo ac ar yr ochr dde y mae y gyllell a'r yd yn dod i fynu fel pistyll ar y bwrdd beindio. Y mae yn ofynol bod yn gyflym anghyffredin arno. Nid oes lle i ddiogi ar yr offeryn hwn. Dyma y gwaith trymaf a wneuthom yma etto, ond gwell gennyf hwn na lladd gwair o lawer iawn, nid oedd ond fel chwarau pel cyn pen y 2 diwrnod, gelli feddwl fod yn rhaid bod yn gyflym iawn arno gan ei fod yn myned gymaint a all 3 cheffyl gerdded drwy y dydd. Y mae 5 esgub yn cael ei beindio arno am bob un a all dyn feindio ar lawr fel y byddant yna. Wel y mae yn bryd i mi fynd am Wil Jones bellach.

Dywed wrth John Bwlch y caiff air cyn hir, a dywed wrth Now Rob, Myn Gafr, fy mod yn cofio atto. 'Rwyf wedi chwerthin llawer am ben 'myn gafr' dywediad Now Rob.

Cofia fi at William Roberts a dywed y caiff yntau dipyn o hanes gwlad y myfyrdodau (wefrdodau?) cyn hir, felly terfynaf ar hyn yn awr gan gofio attat ti a Nain a M. Evans.

Ydwyf

Dy anwyl frawd,
Owen W. Rowlands

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Ffôn/Ffacs: 650291

Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (01286) 672619
Richard S. Humphreys

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Dros gyfnod y Nadolig gwaith plant yr ysgol oedd yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa yn Llanberis. Ein thema oedd stori draddodiadol 'Babwshka' o'r Rwsia, ac roedd pob dosbarth wedi cydweithio i gynhyrchu lluniau a gwaith llaw a fyddai'n adrodd y stori yn weledol. O'r adwaith a gafwyd gan rieni a chyfeillion a fu'n gweld ein gwaith, ymddengys fod pawb wedi mwynhau'r hyn a welwyd. Yn sicr, pan aeth y plant i weld yr arddangosfa ychydig cyn y Nadolig, fe gafodd pob un eu plesio o weld eu gwaith wedi ei osod allan mor ddeniadol gan staff yr Amgueddfa. Diolchir i bawb yn yr Amgueddfa am y gwahoddiad i arddangos gwaith y plant; i'r Cyfeillion am drefnu'r bws i'n cludo i'r arddangosfa; ac i'r athrawon am gynnig nifer o brofiadau diddorol a chyfoethog i blant eu dosbarthiadau.

Gyda dyfodiad tymor y panto mae'r plant yn brysus yn ymarfer ar gyfer cynhyrchiad o waith Mari Gwilym, sef 'Jac a'r Jeli Bins'. Mae holl blant yr ysgol yn cymryd rhan, gydag un o'r rhieni, Mr Barry Davies, yn chwarae rhan y cawr. Mae'r cynhyrchiad cyntaf am 1.30 p.m. ddydd Mercher, 29 Ionawr, ac fe'i anelir ar gyfer y pensiynwyr, gyda

mynediad yn rhad ac am ddim. Gobeithiwn gynnig paned ar y diwedd. Cynhelir y perfformiadau i weddill y cyhoedd am 6.30 p.m. nos Fercher, 29 Ionawr a nos Iau, 30 Ionawr, gyda mynediad trwy docyn yn unig gan fod nifer y seddau wedi eu cyfyngu. Pris tocyn yw £2, ac ychydig iawn sydd ar ôl bellach. Os ydych am ragor o wybodaeth yna cysylltwch yn uniongyrchol â'r ysgol neu ffoniwch ni ar 870879. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r panto, a chan mai Mrs Ann Thomas sy'n gyfrifol am baratoi'r plant gellir eich sicrhau fod gwledd yn eich aros. **Urdd Adran Bentref:** Fe ail-gychwynnodd y cyfarfodydd wythnosol ar ôl gwyliau'r Nadolig. Ionawr 7: Gêm Chwilen; Ionawr 14: Gêmau Potes, gyda diolch i Siôn o Swyddfa'r Urdd; Ionawr 21: Dawns gyda Rhian; Ionawr 28: Gêmau gyda Mark Porter.

Y mae 37 wedi ymaelodi eleni gyda'r mwyafrif ohonynt yn mynychu'r cyfarfodydd bob wythnos. Dalier ati, mae rhaglen law ac amrywiol wedi ei threfnu o'r rhan i'r Pasg.

Elw y Noson Garolau: Gwnaed elw o £120 yn y Noson Garolau a Mins Pei a gynhaliwyd ar y cyd â'r Ysgol Gymuned, nos Iau, 12 Rhagfyr. Cyflwynir yr arian i Gronfa Tŷ Enfys, Ysbyty Gwynedd. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth.

Eglwys y Santes Helen

Plygain Esgobaethol: Cynhaliwyd Plygain Esgobaeth Bangor yn Eglwys St. Mair, Bangor, nos Wener, 3 Ionawr. Cynrychiolwyd eglwys Santes Helen gan Ms Roberta Ingman Griffith (unawd), Mathew Phillips (unawd) gydag Ynnyr ac Eurig Roberts yn offerynwyr.

Mynwent y Plwyf: Bydd y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, Esgob Bangor, yn cysegru'r estyniad newydd i fynwent Plwyf Penisarwaun am 9.30 o'r gloch fore Sul, 9 Chwefror.

Bedydd Esgob: Ni chynhelir gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf ddydd Sul, 9 Chwefror, ond byddwn yn ymuno â'r gynulleidfa yn y gwasanaeth Bedydd Esgob am 10.30 o'r gloch yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

Dydd Mercher y Lludw a'r Grawys: Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun

Bendigaid am 6.30 o'r gloch nos Fercher, 12 Chwefror, yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Gwasanaeth unedig fydd hwn i blwyfolion Penisarwaun a Llandinorwig. Bydd gwasanaethau bob dydd Mercher am 6.30 o'r gloch yr hwyr ar yn ail yn y ddau blwyf yn ystod y Grawys gan ddechrau yn Eglwys Santes Helen ar ddydd Mercher, 19 Chwefror. Ceir astudiaeth Feiblaidd i ddilyn. Croeso i bawb.

Cleifion: Ar ddechrau blwyddyn newydd anfonwn ein cofion fel Eglwys at bawb sydd yn wael ar hyn o bryd. Anfonwn gyfarchion arbennig i Mr Bryngwyn Griffith sydd wedi bod yn yr ysbyty droeon yn ddiweddar. Brysiau wella Bryn.

Ysgol Sul Bosra: Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig, 'Y Dyn Blin', bnawn Sul, 22 Rhagfyr, a gwnaed casgliad o £40 tuag at Apêl Blue Peter. Llongyfarchiadau i chwi blant am berfformiad clodwiw iawn. Bydd cyfle iddynt fwynhau gwyllo storïau'r Beibl ar fideo y tymor hwn gan gychwyn hefo'r 'Creu a'r Cwmp'.

Parti Nadolig: Dymuna aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen a Chapel Bosra ddiolch i bawb a baratodd barti Nadolig gwerth chweil iddynt a diolch i Siôn Corn am alw heibio.

Croeso: Croesewir Alan, Marie, Dewi a Gethin i'n plith. Y maent wedi ymgartrefu yn Llwyn Derw. Cydymdeimlir â Marie yn ei phorofedigaeth o golli ei mham.

Gwellhad: Deallir fod nifer fawr wedi

bod yn sâl hefo'r dwymyn yn ddiweddar. Gobeithio eich bod oll yn gwella erbyn hyn. Anfonir ein cofion anwylaf i Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Bedydd: Rhagfyr 17, bedyddiwyd Cai Glyn, mab bychan Nia a William Oliver o'r Alban. Fe'i bedyddiwyd yn Nhawelfa, cartref Myfanwy a Dic Parry, sef nain a thaid Cai.

Penblwydd Arbennig: Pob dymuniad da i Sioned Jones, Tyddyn Perthi, ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed; ac i Andrea Paterson, Bryntirion, ar achlysur ei phen-blwydd yn 21ain. Pob bendith i'r ddwy ohonoch.

Pwyllgor Neuadd: Daeth amser adnewyddu aelodaeth Clwb Cant unwaith eto, sef 50c y mis neu £6 y flwyddyn. Cyfraniadau i'r Trysorydd, Dafydd Williams, Brynrefail, ffôn 871754, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor. Diolchir yn ddiffuant i chwi oll am eich cefnogaeth i'r Clwb Cant a diolchir i bawb am gefnogi'r amrywiol wetihgareddau yn ystod 1996.

Ar noson finio oer, bu'r criw o garolwyr yn hynod falch o'r croeso cynnes a gafwyd ar nos Lun, Rhagfyr 23. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd yn ariannol. Gwnaed elw da o'r Catalog Webb Ivory hefyd a diolchwn i Phyllis am archebu ac i bawb a gefnogodd. Tynnwyd Clwb Cant mis Ionawr a'r enillwyr oedd: 1, E. Jones, Brynhyfryd; 2, Leslie Jones, Meillionydd; 3, Meical Jones, Tyddyn Perthi.

DRAENOG



Mae nifer o dafarn dai'r fro yn denu cwsmeriaid drwy ddarparu bwyd ac mae llawer ohonynt yn llwydiannus iawn. Yn wir mae rhai ohonynt yn mynd i eithafion i blesio'u cwsmeriaid. Clywais am un dafarn wrth droed yr Wyddfa oedd wedi archebu 'ham wedi'i rhostio' i'w rhoi ar y fwydlen. Cyrhaeddodd y cig ond fe'i AIL-ROSTIWDYD cyn ei rhoi i'r cwsmeriaid!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!


ERIC JONES
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol
Ffôn: 872421

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Côr Meibion Dyffryn Peris: Nos Sadwrn, 11eg o Ionawr, yng Ngwesty'r Dolbadarn, cafwyd noson arbennig o dda yng nghwmni Doreen Lewis. Er mai ychydig a fanteisiodd o gael gwrando ar yr arbenigwraig hon fe gawsom ei gorau ganddi. Cyflwynwyd y noson gan Arwel Jones. Trefnwyd raffl gan Roy, a'r enillwyr oedd: 1, 870861; 2, Hefina; 3, 872376; 4, Bethan; 5, 870563; 6, Margaret; 7, Sheila; 8, Meirion; 9, Gwilym; 10, Stan D.B.; 11, Doreen; 12, Wil; 13, Meirion; 14, Pat D.B. Diolch yn arbennig i'r rhai gyfrannodd at y raffl ac i'r swyddogion wrth y drws ac i Elwyn am drefnu'r noson.

Yn ystod gwyliu'r Nadolig cafwyd raffl yng Ngwesty'r Prince of Wales, a diolchiadau fil eto i'r rhai gyfrannodd yn helaeth iawn, ac i'r rhai fu'n brysur yn gwerthu'r tocynnau. Enillwyd y llun gan Mrs Carter, Didfa, Llanrug; y ddol gan Mrs Heulwen Edwards, Stryd Fawr, Llanberis; a'r ddol Prince of Wales gan Mrs Liz Griffith, Stryd Turner, Llanberis.

Bydd pwyllgor merched y côr yn trefnu noson o Bingo yng Ngwesty Dolbadarn nos Wener, 28 Chwefror. Croeso cynnes i bawb.

Diolch o galon i Dylan Evans ac Ian Parry am gasglu bron i £200 trwy'r ras noddedig o amgylch Llyn Padarn ddydd Sul cyn y Nadolig. Bydd yr elw'n mynd tuag at gostau'r Côr i Luxembourg fis Medi nesaf. Diolch yn fawr hogiau.

Pasiant Nadolig: Nos Sul, Rhagfyr 15fed, cafwyd noson arbennig iawn yn Eglwys Sant Padarn, pan berfformiwyd Gŵyl y Geni ar ffurf hynod effeithiol, ac efallai am y tro cyntaf erioed gan blant holl Ysgolion Sul y pentref. Ysgrifennwyd a chynhyrchwyd y gwaith gan Mrs Ann Parry-Jones, a chynorwywyd hi gan Mr Gareth Jones. Arweiniwyd y noson gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, a'r Parchg Emyr Owen yn arwain y gweddïau. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg John Pritchard. Gareth Jones oedd y cyfeilydd medrus a dau o fechgyn Ysgol Brynrefail yn chwarae'r gitâr. Cafwyd help lleisiol gan famau'r plant ac athrawon yr Ysgolion Sul. Diolchwyd i bawb oedd wedi cymryd rhan, heb enwi neb yn unigol o'r cast


talentog, gan y Parchg Philip Hughes, ac i staff Ysgol Brynrefail am ofalu am wisgoedd yr angylion. Amcan y pasiant arbennig yma oedd codi arian i Dŷ Gobaith, hospis ar gyfer plant yng Nghroesoswallt, a gwnaed elw sylweddol. Diolch iddynt am ddod â thipyn o naws ac ystyr y Nadolig i ni fel cynulleidfa. —ALWENA MORRIS

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd y pwyllgor misol bnawn Mawrth, Ionawr 7fed, yn y Rheithordy. Y Rheithor, y Parchg Philip Hughes oedd yn arwain y rhan ddefosiynol. Mwynhawyd y pnawn yn fawr iawn a dangosodd y Rheithor luniau a sleidiau o Uganda yn dilyn ei ymweliad yno yn ddiweddar. Ac ar eu gweld sylweddolwn ein bod yn eithriadol o lwcus yn y wlad hon mewn llawer modd. Mrs Bet Hughes a Mrs Marjorie Edwards oedd yn gyfrifol am y te, ac enillydd y raffl oedd Mis Cathleen Pritchard. Diolchwyd i'r Rheithor a'r gwestwragedd gan Mrs Nan Owen a Mrs Hilda Williams yn eilio.

Lleisiau Lliwedd: Mae Lleisiau Lliwedd wedi ailddechrau ymarfer ar ôl cyfnod y Nadolig. Os oes rhywun â diddordeb mewn ymuno â'r parti fel aelod, beth am ymuno â ni bob nos lau am 7.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch. Cewch groeso mawr a digon o hwyl.

Y Gymdeithas Undebol: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Festri Capel Coch, nos Fawrth, Ionawr 14. Cafwyd cwis gyda thîm o Ddeiniolen yn cystadlu yn erbyn tîm o Aelodau'r Gymdeithas. Aelodau tîm Deiniolen oedd Iona Richards, Margaret Cynfi Griffith, Donald Jones a Tydfil Jones. Aelodau tîm Llanberis oedd Luned Mai Jones, Cledwyn Parry, Bert Parry, Dafydd Pritchard a Gethin Pritchard. Richard Lloyd Jones, Bethel, oedd yn holi'r ddau dîm Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni, ac mae'n debyg mai cyfartal oedd y ddau dîm ar ddiwedd y cwis. Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Chwefror 4, pan fydd aelodau Cymdeithas Ddrama Llanberis yn cynnal noson. Croeso cynnes i bawb i'r noson honno hefyd.

Pantomeim: Aeth llond dau fws o'r pentref i weld y pantomeim



Clywsom fod un o aelodau mwyaf blaenllaw Clwb Pêl-droed Llanberis wedi ennill GO-KART mewn raffl Nadolig. Daw'n handi os ar frys i farcio'r cae.

'Cinderella' yn Southport ddydd Sadwrn, Ionawr 18. Mae'r trip hwn yn ddigwyddiad poblogaidd ers blyneddau erbyn hyn, a diolchir i Mrs Meirwen Baylis, Anfield, am wneud yr holl drefniadau unwaith eto.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Caryl Wyn Williams, Carlinig, Ffordd Tŷ Du, ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei arholiad piano gradd 1. Mae Caryl wedi cael gwahoddiad i chwarae yn Neuadd P.J., Bangor, ar Chwefror 18fed. Fe'i hyfforddir gan Mrs Ildid Anne Jones o Dinas, Llanwnda.

Diolchiadau

Dymuna Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, blodau, ymweliadau a galwadau ffôn tra yn yr ysbty cyn y Nadolig ac yn y flwyddyn newydd a hefyd ar ôl dod adref. Diolch arbennig i staff Ward Aran Ysbyty

Gwynedd am eu gofal a'u caredigrwydd unwaith eto; i griw'r ambiwlans ac i staff Meddygfa Llanberis.


Dymuna Meinir Angharad, Arlys, Stryd y Ffynnon, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Dymuna Gwynfryn Griffiths ddiolch o galon i'w holl ffrindiau, y teulu, a'r Feddygfa leol am eu caredigrwydd a'u cymorth yn ystod ei lawdriniaeth ym Manceinion yn ddiweddar.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr mis Ionawr oedd — £35: Mrs Lambrecht, Maes Padarn (192); £25: Mrs A. Williams, 3 Preswylfa (33); £15: Mrs M. Jones, Blaen Ddôl (25); £10: Mrs M. Edwards, 40 Maes Padarn (193); £5: Mr G. Owen, Maes Padarn (195).



Dylan ac Ian yn barod i ddechrau'r ras efo Emllyn ac Eilyr. Mae'r boi rhif 16 wedi blino cyn cychwyn!



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

DAFYDD OWEN

TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron



Aelod o'r

**11 Rhes Faenol
LLANBERIS**

Ffôn: (01286) 871680

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Mrs Anita Long yn arwain taith o gwmpas y pentref gyda phlant blynyddoedd 5 a 6.

Newyddion o'r Ysgol: Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ein gweithgareddau cyn y Nadolig. Mae tâp fideo wedi ei wneud o'r Cyngerdd. Gallwch wneud ymholiadau amdano yn yr Ysgol.

Braf iawn yw cael croesawu dwy chwaer i Fl. 2 a Bl. 3, sef Michelle a Nicola Roberts. Maent wedi symud o Ddeiniolen a dymunwn bob hapusrwydd i'r teulu yn eu cartref newydd yng Nghwm-y-glo.

Fel rhan o'u themâu ar 'Gyfathrebu' cafodd Bl. 5 a 6 brynhawn difyr ac addysgiadol iawn yng nghwmni Mrs Anita Long sy'n riant a llywodraethwr yn yr ysgol. Roedd wedi paratoi taith gerdded o gwmpas rhan uchaf y pentref oedd yn cynnwys cliwiau a gwaith cyfeiriannu. Diolch yn fawr iddi am ei chyfraniad gwerthfawr.

Fe garem ddiolch i Sefydliad y Merched Brynrefail am eu croeso cynnes i nifer o blant yr ysgol, Mrs Roberts a Mrs Hughes cyn y Nadolig. Braf iawn oedd cael derbyn y gwahoddiad a braint oedd cael diddanu pensiynwyr y pentref yn festri Capel Brynrefail. Diolch o galon hefyd i Siôn Corn am ddod yno ac am yr anrheg i bob plentyn.

Bu rhai o blant yr Ysgol o gwmpas y pentref yn canu carolau ychydig cyn y Nadolig a diolchir i bawb am eu rhoddion; diolchir yn arbennig i Westy'r 'Fricsan' am eu cefnogaeth. Roedd yr elw tuag at yr Ysgol. Enillwyr y raffl ar y noson oedd: Mrs Williams; Ann Jones a Kath Green.

Enillydd dyddiad geni'r Tedi oedd Llion Jones.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Rhagfyr i Llion Jones, Isfryn; a Mrs Margaret Williams, Bryn. Llongyfarchiadau i chwi!

Yr Urdd: Yn y ddau gyfarfod diwethaf o'r gangen bu Mrs Kath Green ac Anita Chidwick yn gwneud torchau Nadolig gyda'r plant. Yna trefnwyd gêm tombola gan Anti Sioned.

Ddydd Sadwrn, 11 Ionawr, aeth dau dîm pêl-droed 5-bob-ochr i gystadlu ym Mangor. Bu'r tîm hŷn yn bur lwyddiannus gan ennill dwy gêm, yn gyfartal mewn gêm arall a cholli un gêm. Da iawn hogiau!

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Gwyneth Chick, Rhos-y-ffin, a Mr Hywel Williams, Nant Forgan, yn eu profedigaeth o golli brawd. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs N. M.

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
(01248)
354646**

Owen, Glandwr, hithau wedi cael profedigaeth o golli brawd-yng-nghyfraith.

Diolch: Dymuna Wyn Rowlands, Glan'rafon, ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a'i gydweithwyr am y cardiau, anrhegion, galwadau ffôn a'r ymweliadau tra bu yn Ysbyty Llandudno ac ar ôl dod gartref. Diolch yn fawr.

Diolch: Dymuna Mr Edward Roberts, Bod Gwilym, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd tuag ato tra bu yn yr ysbyty ym Mangor. Diolch hefyd am y dymuniadau da a dderbyniodd trwy alwadau ffôn, cardiau a rhoddion. Diolch i'r meddygon a staff Ward Aran. Diolch yn fawr iawn i bawb.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Gwellhad: Cafodd Miss Megan Humphreys, Cadnant, ddod adref o'r ysbyty erbyn y Nadolig, ac roedd pawb yn falch iawn o'i gweld. Ond, bu'n rhaid iddi fynd yn ei hôl ddydd olaf y flwyddyn. Gobeithio y cawn well hanes yn fuan a'i bod yn gwella. Mae rhai o'r ardal yn wael ac yn gaeth i'w cartrefi. Anfonwn ein cofion atynt a dymunwn iddynt wellhad llwyr a buan.

ecspres ac fe aeth o a'i gyd-yrwr am dro i le tebyg i Butlins. Roedd ein cyfaill eisiau mynd ar y reidiau anturus ond methai berswadio'i gydweithiwr i fynd hefo fo. O'r diwedd fe lwyddodd i'w berswadio . . . ac i ffwrdd â nhw. Ond, tipyn o siom oedd y reid — doedd hi fawr o antur wedi'r cwbl . . . roedd deifio wrth draed ymosodwr yng ngheg y gôl yn fwy o antur!

Wnest ti sylwi ar enw'r reid, boi? . . . ar y 'Tunnel der liebe' y buo nhw — 'y Tynal of lyf'!

DER IGEL



Rhyw ddraenog Almaenaidd a soniodd wrthyf am yrrwr bws lleol yn ddiweddar. Roedd o wedi mynd i'r Almaen efo'i fws

**Emyr Jones
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513**



Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

★ **Tacsi**
★ **Maes Awyr**



**Yfwch chi
Gyrrwn ni!**

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

**Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr**

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**


(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

CROESAIR CHWEFROR



AR DRAWS

1. Nifer mawr o ynnau yn deilchion (7)
4. Plwyf y llain llyfn ... (8)
8. ... ynteu plwyf y llain gefn! (8)
9. Caniatu i ledaenu'r genadwri (7)
10. Pigau planhigion (5)
13. Chwyn (5)
15. Rasal (4)
17. A.S. etholaeth gyfagos yn llyncu traean o'r leg i gael rhan o goes yr eidion (7)
20. Ar lawr (7)
21. Gweithio'n galed (7)
22. Lle i olchi trol Ned pan mae wedi meddwi (7)
23. Iard y gyfraith? (4)
25. Natur, ia, Ann wedi mynd yn wyllt (5)
26. Ffiaidd (5)
29. Plwyf Twllsarn? Wel, fe allai fod (7)
30. Milwyr yn adran y fagnelaeth (8)
31. Plwyf y llain bres? (8)
32. Lladd trwy gyfraith (7)

I LAWR

1. Yr enillion a ddaw o fanc y llidog (5)
2. Dosbarthu (5)
3. Plwyf, llain Lenin oedd! (12)
5. Dysglau i ddal ymenyn ar ôl corddi (5)
6. Y ffordd y gofynnir lle mae rhywbeth (5)
7. "Mi glywaf dyner lais ...", ond un gwyllt oedd y cyfieithydd (5)
11. Dengys gyfnod drwy ddefnyddio tywod (8)
12. Dioddef o eisiau bwyd (6)
14. Pobl bradwrus (12)
16. Plwyf gwron dall? (8)
17. Cyfaredd (4)
18. Ceil (6)
19. Llestr i roi bwyd arno (4)
23. Offeryn torri (5)
24. Mae car o Brydain yn cynnwys coed bytholwyrdd o wledydd môr y canoldir (5)
25. Yr hyn a fesurir gan 11 i lawr (5)
27. Rheol neu ddull (5)
28. Sathru (5)

ATEBION CROESAIR Y NADOLIG

Derbyniwyd atebion cywir i groesair y Nadolig gan Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Dilys A Pritchard-Jones, Aber-erch; Nansi Davies, Rhuthun; Mabel Parry, Porthmadog; Elfed Evans, Llanllechid; Mrs G Gill, Bangor; Mrs Mary Davies, Waunfawr; Catherine A Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; N Hughes, Cwm-y-glo; E E Jones, Rhoshirwaun; Miss Mair Foulkes, Penisarwaun a'r enillydd, sef yr un a dynwyd allan o'r het oedd, Rosemary Williams, Moelyci, Tregarth, Bangor.

£5 a llongyfarchiadau i chi.

Fe sylwch mai "plwyfi" yw'r thema sy'n cysylltu nifer o atebion croesair y mis hwn, ac er mwyn cael gwell dull o ddarganfod enillydd na'r un "raffiaidd" o dynnu enw o'r het,

rwyf am i chi greu anagram o enw unrhyw blwyf arall sy'n dilyn yr un patrwm â'r rhai yn y croesair. Fe â'r wobwr i'r un fydd yn apelio fwyaf. Gyrrwch eich atebion a'ch anagramau i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun erbyn nos Wener, Chwefror 21.



Dyddiadur y Mis

CHWEFROR

1. Sadwrn **WAUNFAWR:** Plaid Cymru. Taith gerdded yn Llanddwyn.
3. Llun **DEINIOLEN:** Undeb y Mamau yn Eglwys Llandinorwig am 7 o dan ofal Caplan Ysbyty Gwynedd, Y Parch K.S. Rees
4. Mawrth **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Lenyddol am 7 yn Festri Capel Coch. Noson o dan ofal Cymdeithas Ddrama Llanberis.
- BETHEL:** Cymdeithas Rhieni/Athrawon. Noson addysgiadol.
6. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda Mr Nevil Hughes.
10. Llun **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas. Sgwrs gan Mr a Mrs Eaglestone ar eu taith i Santiago de Compostela.
11. Mawrth **LLANRUG:** Merched y Wawr gyda Bethan Jones Parry.
12. Mercher **DEINIOLEN:** Cymun Bendigaid am 6.30 yn Eglwys Llandinorwig.
- BETHEL:** Merched y Wawr - Julie Jones yn sôn am gwilio.
17. Llun **DEINIOLEN:** Merched y Wawr gyda Mary V Jones.
20. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas gyda Mr Ralph Jones.
24. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda'r Parch Gwynfor Williams.
28. Gwener **BETHEL:** Yr Urdd. Noson Goffi yn y Neuadd Goffa.
- LLANBERIS:** Bingo yng Ngwesty Dolbadarn.

MAWRTH

1. Sadwrn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail

RHODDION

£5: Mrs Dilys Jones, Cytir, Brynrefail; C Jones-Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan, Llanrug; Mr Edward Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo; Mr Wyn Rowlands, Glan-rafon, Cwm-y-glo; Iwan a Meinir Williams, 18 Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Teulu'r ddiweddar Mrs Jones-Evans, Waunfawr, er cof amdani; Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Bryn Golau, Waunfawr; Gwynfryn a Jean, Llanberis;

£3: Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf, Deiniolen; Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis

£2: Mr Ellis W Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Alun Wyn a

Laura Evans, 55 Pentre Helen, Deiniolen; Mr a Mrs Elfed Roberts, Dwyros, Waunfawr; Mrs Linda Williams, Carlinig, Ffordd Ty Du, Llanberis.

PLAID CYMRU LLANBERIS yn cyflwyno

CAJUNS DENBO

yng Ngwesty'r Dolbadarn
Nos Wener, Chwefror 14
Tocynnau £3 (872034)

LLANRUG YN EISIAU

Rhywun i wneud gwaith
garddio a thwtio yn achlysurol
Ffoniwch 678629
ar ôl 6 o'r gloch

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: (01286)

675951

Prisiau Cystadleuol - Gwaith Contract - Pell ac Agos

Fframio

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans

GARNET, LLANRUG

Ffôn: **673981/675807**

CHWARAEON

NOSON WOBRWYO GWYNEDD

Mae'n dda gwybod y bydd noson lwyddiannus byd chwaraeon y cylch yn parhau er gwaetha'r newid a fu o fewn llywodraeth leol. Cynhelir Noson Wobrwy Gwynedd eleni yn ôl patrwm a osodwyd gan Noson Wobrwy Arfon yn y gorffennol. Fel o'r blaen, bydd y trefniadau yng ngofal Aled Roberts a chynhelir y noson yn Theatr Seilo, Caernarfon, am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Chwefror 25. Tanni Grey, y dewraf o'n holl athletwyr yng Nghymru, fydd y gwestai, ac mae'n siŵr y bydd ei hanerchiad yn her i bob un ohonom ac yn symbyliad i'r anabl, ac yn help i ni ddeall rhywfaint am wir ysbryd y campau.

Gofynnir i glybiau lleol enwebu pobl addas ar gyfer y gwobrau. Dyma'r categorïau:

Chwaraewr/wraig y flwyddyn

Tîm y flwyddyn

Tîm y flwyddyn (plant)

Chwaraewr iau y flwyddyn (bachgen)

Chwaraewr iau y flwyddyn (merch)

Dylai'r enwebiadau fod yn seiliedig ar berfformiadau yn ystod y flwyddyn 1996 yn unig. Ieuenctid oedd dan 16 oed ar Ragfyr 31, 1996 sy'n gymwys ar gyfer yr adran iau. Rhaid i'r sawl a enwebir fyw yng Ngwynedd neu fod yn aelod o glwb a leolir yng Ngwynedd. Mae'n siŵr y gall nifer o glybiau feddwl am

chwaraewyr addas i'w henwebu. Ceir y ffurflenni enwebu gan y Swyddog Datblygu Chwaraeon yn Stryd y Castell, Caernarfon, a rhaid i'r ffurflenni fod wedi eu dychwelyd erbyn dydd Gwener, Chwefror 7. Ewch ati i gyflwyno'ch enwebiadau gan fod gan bro'r Eco record ryfeddol dros y blynyddoedd.

Mae un datblygiad pwysig arall eleni. Mae criw gweithgar Cyngor Chwaraeon Arfon yn trefnu cystadleuaeth arall i gydreddeg â'r Noson Wobrwy. Cyflwynir tlws Hyfforddwr y Flwyddyn ar gyfer Rhanbarth Arfon. Rhydd gyfle i wobrwyo y bobl hynny sy'n rhoi yn hael o'u hamser a'u harbenigedd i ddatblygu chwaraewyr y dyfodol.

Cofiaf i Aled Roberts ddweud mewn un o'r nosweithiau hyn bod dyddiad buddsoddi mewn adnoddau yn prysur ddod i ben, ac y dylid yn awr fynd ati i fuddsoddi mewn pobl. Rwy'n siŵr y bydd y tlws hwn yn gydnabyddiaeth teilwng o gyfraniad y "gweithwyr tawel". Yr un yw dyddiad cau yr enwebiadau ar gyfer y tlws hwn a'r tlysau eraill. A chofiwch bod hwn yn gyfyngedig i Ranbarth Arfon.

Edrychwn ymlaen felly at noson hwyliog a lwyddiannus, ac yn arbennig at gael gwrandao ar Tanni Grey.

GÊM FAWR Y DOLIG



Y ddau dîm dewr — doedd hi ddim yn oer!

Chwaraewyd gêm bêl-droed draddodiadol y Nadolig ym Methel unwaith eto. Does dim all rwystro'r chwaraewyr hyn rhag mentro i'r cae. Chwaraewyd gêm 1995 yn yr eira, ac yn 1996 cafwyd glaw mewn pryd i feddalau rhywfaint ar y cae rhewllyd.

Roedd y maes felly yn ardderchog ac yn gweddu i'r dim i dalent anhygoel y ddau dîm. Diolch unwaith eto i Tudur Owen am gasglu tîm y cyfryngau i wynebu hogia cadarn Bethel. Bythefnos ynghynt roedd Emyr Davies (Sgorio) wedi bod yn sylwebu yn y Nou Camp ym Marcelona, a bellach gall ychwanegu'r Stadio Comunale ym Methel at restr y caeau enwog y bu ynddynt. Er i Chips (Pobol y Cwm) gael gêm dda yng nghanol y cae i dîm

y sêr, blino fu ei hanes. Gyda deng munud yn weddill, 3 - 3 oedd y sgôr, cyn i Dilwyn Roberts sgorio chwip o gôl i Fethel. Torrodd honno grib y sêr, a Bethel a orfu yn y diwedd o 5 - 3. Mae si bod tîm "ebolion" Bethel (Biggles a'r criw) am herio'r tîm hyn - pan fydd wedi cynhesu.

SIAWNS AM GAP?

Cafodd Mark Herbert a Michael Iorwerth eu dewis i gynrychioli tîm o dan 16 clybiau rygbi Gogledd Cymru yn erbyn Swydd Caer.

Maent eisoes wedi cynrychioli Gwynedd ac maent yn aelodau o dîm llywyddiannus o dan 16 Clwb Rygbi Caernarfon.

CWPAN CYMRU

Mae tîm pêl-droed dan 12 oed Ysgol Brynrefail wedi cyrraedd rownd yr wyth olaf yng Nghystadleuaeth Cwpan Cymru Cyril Rogers. Bydd rhaid teithio i Dde Cymru ar gyfer y gêm nesaf, i chwarae yn erbyn tîm o Dreorci neu Goedcae, Llanelli. Enillodd y tîm bum gêm yn y gystadleuaeth hyd yma. Dyma'r canlyniadau:

Brynrefail 3	Ysgol Eifionydd 1
Brynrefail 4	Ysgol Botwnnog 2
Ysgol Tywyn 1	Brynrefail 6
Brynrefail 6	Ysgol Bryn Eilian 4
Brynrefail 3	Ysgol Prestatyn 2

Yn y gêm ddiweddaraf yn erbyn Prestatyn cafwyd perfformiad llawn egni a brwdfrydedd gan yr hogiau. Sgoriwyd dwy gôl gynnar o ganlyniad i redeg cryf Owain Morris, a dyna oedd y sgôr hyd hanner amser. Yn yr ail hanner roedd hogiau Prestatyn yn cryfhau a chawsant gôl yn fuan wedi'r egwyl. Bu'n gyfnod pryderus i ni, a gallai fod wedi bod ar ben arnom oni bai am ymroddiad llwyr hogiau Brynrefail. Sgoriodd Jonathan Gordon ein trydedd gôl i wneud pethau'n haws. Roedd yr haul yn llygaid Dewi Jones, ein gôlgeidwad, a hynny (medda fo) oedd yn gyfrifol am ail gôl Prestatyn. Ond er holl bwysau'r gwrthwynebwyr daliodd ein hamddiffyniad yn gryf hyd y diwedd er sicrhau mai Brynrefail gyrrhaeddodd y rownd nesaf, a chael y trip i'r De.

DRAENOG

Cofied pawb sy'n mynd i Gaerdydd i'r gemau rygbi eleni fynd â chôt gynnes hefo nhw. Hen le oer ydi'r brifddinas - tipyn oerach na Llanrug - fel y canfu pêl-droediwr go amlwg pan aeth i weld y gêm bêl-droed ryngwladol ddiwethaf. Gan ei fod mor oer aeth i brynu côt newydd yn Marks and Spencers er mwyn bod yn gynnes yn y gêm. A thrannoeth, aeth â'r gôt yn ôl i'r siop gan smalio nad oedd yn ei ffitio - a chael ei arian yn ôl. Tasa tîm Porthmadog yn talu'n well gallai'r creadur fforddio cadw'r gôt.

CAPIAU CYMRU

Gwelwyd enw Elin Dafydd ar y dudalen chwaraeon lawer tro o'r blaen, a chaed sawl cyfeiriad at ei dycnwch a'i hymroddiad. Derbyniodd y nofwraig ifanc lythyr pwysig ddechrau'r flwyddyn yn ei hysbysu iddi gael ei dewis yn aelod o dîm cenedlaethol Ysgolion Cymru ar gyfer 1997. Caiff ei hawr fawr pan gynhelir y gystadleuaeth ryngwladol Brydeinig yn Aberhonddu ar Fawrth 15. Ar hyn o bryd ni wyddwn ym mha elfed y bydd yn cystadlu, ond yr ydym yn hyderus y bydd yn rhoi perfformiad clodwiw ar y llwyfan rhyngwladol.



Mae enw Eifion Jones o Lanrug hefyd yn gyfarwydd iawn i ni. Mae'n bosib y bydd ef yn fuan yn cyflawni "hat-trick" rhyfeddol. Ac yntau wedi ennill capiau pêl-droed dan 15 oed a than 16 oed, mae bellach yn aelod o garfan pêl-droed dan 18 oed Ysgolion Cymru. Gall ychwanegu at nifer ei gapiau gan y bydd Cymru eleni yn chwarae yn erbyn Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Iseldiroedd. Mae Eifion, wrth gwrs, wedi ymuno â chlwb Lerpwl. O gofio bod cymaint o ieuenctid yn chwarae pêl-droed gellir dadlau mai'r cap ysgolion yw'r un mwyaf anodd i'w ennill. Y sialens i Eifion yw efelychu camp Terry Venables a enillodd gapiau dros Lloegr ar bob lefel posibl. Caiff Eifion ei unfed cap ar ddeg dros Gymru yn erbyn Awstralia yn Aberdar. Gyda llaw does dim ots faint o gapiau gaiff Eifion, dydi ei ben yn mynd yr un fodfedd yn fwy.

SIAWNS AM GWPAN?



Gobeithion o godi cwpan sy'n mynd a bryd y ddau yma. Ewrop neu'r FA - ond nid Cwpan y Byd - i Giggs. Cwpan Merched Lloegr sydd ar feddwl Manon Williams. Fel aelod o glwb merched Dinas Bangor, bydd yn gwynebu Everton, o'r Premier League. Gobeithio bod amddiffyn Everton mor fregus a thîm y dynion.